



Cyngor Sir Ddinbych **Pwyllgor Craffu Cymunedau**



Tân Mynydd Llantysilio
Haf 2018

Tân Mynydd Llantysilio Haf 2018

Cynnwys

Tudalen(nnau)

Rhagair y Cadeirydd	2 – 3
Crynodeb Gweithredol	4
Adran 1: Cyflwyniad	5
Adran 2: Cefndir	5 – 6
Adran 3: Y Broses Adolygu	7
Adran 4: Y Digwyddiad Tân a'i Reolaeth	8
Adran 5: Crynodeb o'r Dystiolaeth mewn perthynas â Rheolaeth Tir	9 - 17
Adran 6: Crynodeb o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Digwyddiad Tân	18 - 35
Adran 7: Beth Weithiodd yn Dda?	36
Adran 8: Rhanddeiliaid: Y Gwersi a Ddysgwyd ac Awgrymiadau ar Cyfer Gwella	37 - 42
Adran 9: Crynodeb a Chasgliadau'r Pwyllgor Craffu	43 - 47
Adran 10: Argymhellion	48 - 51
Adran 11: Cydnabyddiaethau	52
Adran 12: Rhestr o Dermau	53

Atodiadau

Atodiadau 1: Map o'r ardal a effeithiwyd gan y tân	55
Atodiadau 2: Llinell amser o sut wnaeth bob sefydliad ymwneud â'r tân	57 - 63

Rhagair

Gan y Cynghorydd Huw O Williams

Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych



Roedd haf sych a phoeth 2018 yn hwb a groesawyd gan economi Sir Dinbych gyda miloedd o ymwelwyr yn cael eu denu i'r ardal i fwynhau ei golygfeydd, atyniadau a chyfleusterau. Wrth i'r rhan helaeth o'r preswylwyr ac ymwelwyr fwynhau tywydd hyfryd yr haf, roedd un rhan o'r sir yn delio ag ergyd ddinistriol pan gynnodd tân gwyllt ar Fynydd Llantysilio, ger Llangollen.

Nid yn unig yw'r ardal hon yn boblogaidd gydag ymwelwyr a cherddwyr, ond mae hefyd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Oherwydd cynefin naturiol yr ardal mae wedi ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDGA) ac mae'n ffurfio rhan o Ffyniau Clwyd ac Ardal o Harddwch Eithriadol Dyffryn Dyfrdwy (AHNE).

Llosgodd y tân ar y mynydd o ganol Gorffennaf i ddiwedd Awst ac o ganlyniad cafodd oddeutu 250 hectar (617 erw) o gynefin y mynydd ei ddinistrio yn drychinebus. Ynghlwm yn Atodiad 1 ceir map yn dynodi'r ardal o'r mynydd yn fras a effeithiwyd gan y tân. Gwelir graddau'r dinistr hyd heddiw, oddeutu deuddeg mis ar ôl y digwyddiad. Nid yn unig cafodd y mynydd a'r ecoleg a gafodd eu heffeithio, tarfwyd ar fywyd bob dydd preswylwyr lleol a busnesau dros gyfnod estynedig oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd arnynt wrth i'r gwasanaethau brys ymdrin â'r tân. Yn ogystal, yn y tymor canolig i hir, mae canlyniadau'r tân yn debygol o gael effaith niweidiol ar fywoliaeth y rheiny sy'n dibynnu ar y mynydd a'r ardal gyfagos er mwyn eu bywoliaeth, ac y gall i bob pwrpas ddod a ffordd o fyw sy'n ganrifoedd oed i ben yn y rhan penodol yma o Sir Ddinbych.

Oherwydd pryderon a godwyd gan breswylwyr lleol a busnesau, penderfynodd Pwyllgor Craffu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych gynnal ymchwiliad i'r digwyddiad gyda bwriad o sefydlu pa wersi y gellir eu dysgu er mwyn gostwng y risg o dannau gwyllt pellach, a beth yw'r ffordd orau i ymateb i'r rheiny sydd yn digwydd.

Gwahoddodd y Pwyllgor gyrrff cyhoeddus a sefydliadau eraill wnaeth ymwneud â'r tân, neu a effeithiwyd ganddo, i gyflwyno tystiolaeth a chyfrannu i gyfarfod cyhoeddus yn Llangollen ar 20 Mawrth 2019.

Ar ran y Pwyllgor hoffwn ddiolch i'r asiantaethau a daclodd y tân mynydd anodd hwn ac wedi hynny a gytunodd i gymryd rhan yn ymgais y Pwyllgor i ddeall a dysgu ohono.

Yn yr un modd, hoffwn ddiolch i breswylwyr lleol a chynrychiolwyr y rhai sy'n berchen neu'n gweithio ar Fynydd Llantysilio am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r ymchwiliad.

Mae'r Pwyllgor nawr wedi cwblhau ei archwiliad ac mae ei ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion wedi eu gosod yn yr adroddiad hwn. Mawr obeithia'r Pwyllgor y bydd yr asiantaethau, sefydliadau ac unigolion a gymerodd rhan yn yr archwiliad yn gweld yr adroddiad yn llawn gwybodaeth ac yn bwynt cyfeirnod ar gyfer ymdrechion cydweithio yn y dyfodol.

Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd yr archwiliad Craffu hwn mewn ymateb i bryderon a godwyd gan aelodau etholedig lleol a phreswylwyr yn dilyn y tân gwyllt ar Fynydd Llantysilio yn ystod haf 2018. Amcan y Pwyllgor wrth ymgymryd â'r adolygiad oedd sefydlu pa wersi y gellir eu dysgu o sut ymatebwyd i'r tân a sut y'i rheolwyd a pha gamau y dylid eu cymryd i osgoi neu leihau'r risg o dannau gwyllt difrifol debyg rhag digwydd.

Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol y byddai'r sefydliadau a wnaeth daclo'r tân gwyllt yn cynnal eu hadolygiadau eu hunain o'r digwyddiad. Felly roedd y Pwyllgor eisiau sicrhau fod y prosesau hyn wedi dod i ben fel y gallent ystyried eu darganfyddiadau yn rhan o'r archwiliad.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a goladwyd drwy'r archwiliad. Mae Adran 5 yn ffocysu ar faterion rheoli tir, tra mae Adran 6 yn crynhoi'r wybodaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r tân ei hun a rheolaeth y digwyddiad. Manyla Adran 7 ar asesiad Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru o beth weithiodd yn effeithiol yn ystod yr ymateb i'r tân. Crynhoir y gwersi a ddysgwyd gan yr holl sefydliadau a oedd yn ymwneud â'r tân a materion rheoli tir yn Adran 8 o'r adroddiad hwn.

Gellir gweld y casgliadau a wneir gan y Pwyllgor yn Adran 9. Yn seiliedig ar y casgliadau hyn mae'r Pwyllgor wedi eu gwneud neu gymeradwyo awgrymiadau sy'n anelu at leihau'r risg o dannau gwyllt yn y dyfodol ac i gydlynu'r ymateb mwyaf effeithiol pan maent yn digwydd. Gosodir y rhain yn Adran 10 o'r Adroddiad.

Mae'r Pwyllgor yn mawr obeithio y caiff y gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad dinistriol hwn gael eu rhoi ar waith er mwyn atal a thaclo digwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Gobeithia'r Pwyllgor y bydd yr holl bartneriaid yn fodlon cydweithio i weithredu'r awgrymiadau gyda bwriad i wella ymatebion amlasiantaeth i ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol ac i leihau'r risg o dannau gwyllt.

Er i dân Llantysilio ddinistrio bioamrywiaeth y mynydd yn ddrwg a chael effaith drom ar ffermwyr lleol, preswylwyr a busnesau, ni wnaeth y tân arwain at golli bywydau nag anafiadau difrifol, na cholli eiddo yn y cyffiniau, diolch i ymdrechion penderfynol a pharhaus yr asiantaethau a oedd yn ymdrin â thaclo'r tân.

1. Cyflwyniad

- 1.1 O fewn ei ffiniau sirol mae gan Sir Ddinbych ardaloedd eang o rostir a choedwig. I'r gorllewin mae'r rhain yn cynnwys rhannau o Fynydd Hiraethog a Choedwig Clocaenog, Bryniau Clwyd i'r dwyrain ac i'r rhannau deheuol o Fynyddoedd y Berwyn, Rhostir Llandegla, Rhostir Rhiwabon a Mynyddoedd Llantysilio. Mae Bryniau Clwyd, Rhostir Llandegla a Rhiwabon ynghyd â mynyddoedd ym Mynyddoedd Llantysilio hefyd yn creu rhan o Ardal o Harddwch Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE)
- 1.2 Mae'r posibilrwydd o dân mawr ar yr ucheldir neu mewn coedwig yn fater sylweddol i'r Sir oherwydd eu heffaith posibl ar yr amgylchedd lleol ac economi'r ardal a'r sir yn gyffredinol.

2. Cefndir

- 2.1 Mae Mynydd Llantysilio yn ffurfio rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mynyddoedd Rhiwabon/ Llantysilio a Glaswelltir Minera (SDGA). Mae wedi bod o dan y dynodiad hwn ers 1991. Mae'r dynodiad traws DU yn cydnabod cymunedau rhostir yr ucheldir a'r orgors a geir ar y mynydd ynghyd â chrynodiad o adar bridio ucheldir fel y grugiar goch, grugiar ddu a'r gylfinir.
- 2.2 Roedd haf 2018 yn arbennig o sych. Yn ystod y cyfnod estynedig hwn o dywydd sych cynnodd nifer o dannau gwyllt mewn amryw o rannau o'r DU. Cynnodd tân mewn ardal o Fynydd Llantysilio, ger Llangollen, ar neu o gwmpas 18^{fed} Gorffennaf 2018 a pharhaodd y tân i effeithio'r mynydd tan 25^{ain} Medi 2018. Rhwng oddeutu 19^{eg} Gorffennaf a 20^{fed} Awst 2018 amharwyd ar fywyd bob dydd nifer o drigolion lleol ynghyd â busnesau lleol, a'r rheiny oedd â hawliau pori ar y mynydd. Gall bywoliaeth y grŵp olaf gael eu heffeithio am gyfnod estynedig. Fodd bynnag, er gwaetha'r maint, ffyrnigrwydd a'r cymhlethdodau yn ymwneud â'r tân hwn dros gyfnod estynedig o amser, ni laddwyd nag anafwyd neb a ni chollwyd anheddau.
- 2.3 O ganlyniad penderfynodd Pwyllgor Craffu Cymunedol y Cyngor ymgymryd ag ymchwiliad i'r tân a'i ganlyniadau tymor byr a hir ar yr ardal leol. Roedd y Pwyllgor eisiau archwilio'r digwyddiad tân ac yr ymateb amlasiantaeth iddo, ynghyd â'r effaith a gafodd y tân ar yr ardal leol, amgylchedd a'r busnesau. Teimlwyd y byddai adolygiad trylwyr o'r agweddau uchod yn gymorth i adnabod a choladu unrhyw wersi a ddysgwyd i alluogi dyfeisio atebion ymarferol gyda'r bwriad o wella ymatebion amlasiantaeth i argyfyngau tebyg yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd y Pwyllgor eisiau sefydlu a fuasai ymarferion rheoli tir yn gallu cael eu defnyddio'n well i liniaru lledaenu tân, neu i ynysu tanau gwyllt. Gan gofio am ardaloedd helaeth o rostir a choedwig yn Sir Ddinbych roedd y Pwyllgor eisiau sicrhau fod cynlluniau yn eu lle ar gyfer cynnull bob sefydliadau

partner a'r rhai a'u heffeithiwyd gan dân gwyllt tebyg i weithredu mewn dull cyd-gysylltiedig wrth ddelio gyda digwyddiad a'i ganlyniadau, a hefyd i gydweithio i liniaru'r risg o ddigwyddiadau o danau gwyllt.

3. Y Broses Adolygu

- 3.1 I hwyluso'r adolygiad hwn penderfynodd y Pwyllgor wahodd sefydliadau cyhoeddus a phreifat a oedd ynghlwm â'r tân, neu a effeithiwyd ganddo, i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth iddo. Wedi adolygu'r wybodaeth ysgrifenedig a ffotograffau cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ym Mhafiliwn Rhyngwladol Llangollen ar 20^{fed} Mawrth 2019 lle gwahoddwyd amrywiaeth o rhanddeiliaid, asiantaethau a sefydliadau a oedd ynghlwm gyda'r digwyddiad tân, y rhai a effeithiwyd ganddo a rheiny sy'n ymwneud â rheoli a phori'r tir yn yr ardal. Pwrpas y cyfarfod hwn oedd derbyn a chyfnewid gwybodaeth a rhannu profiad ynglŷn â delio gyda'r tân a'i ganlyniadau. Galla aelodau'r pwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr o'r amrywiol sefydliadau a oedd yn bresennol. Yn ogystal rhoddwyd cyfle i aelodau'r cyhoedd i gyflwyno cwestiynau i'r amrywiol sefydliadau a oedd yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Darparwyd atebion cynhwysfawr ar bapur nes ymlaen i unrhyw gwestiwn na allwyd ei ateb ar y diwrnod.
- 3.2 Trwy gydol yr ymarfer casglu tystiolaeth ac yn y cyfarfod ei hun pwysleisiwyd **nad** pwrpas y cyfarfod mewn unrhyw ffordd oedd bwrw bai ar unrhyw unigolyn, wasanaeth, sefydliad neu grŵp mewn perthynas â'r tân neu'r ymateb iddo, ond i ddeall yn well a dysgu o'r digwyddiad i gynorthwyo i wella'r ymateb a rheoli digwyddiadau tebyg yn y dyfodol, ac i leihau'r risg o danau gwyllt tebyg ddigwydd eto.
- 3.3 Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i'r asiantaethau, sefydliadau, cyrff preifat a chyhoeddus hynny a wnaeth gyfrannu ac ymgysylltu gyda'r adolygiad mewn un ffordd neu'r llall, sef:
- Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru (GCARGC)
 - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
 - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
 - Heddlu Gogledd Cymru (HGC)
 - Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant
 - Perchnogion Ystâd Llantysilio a'u hasiantau tir
 - Dŵr Cymru Welsh Water
 - Cwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy
 - Cyngor Cymuned Llantysilio
 - Cyngor Sir Ddinbych:
 - ❖ Gwasanaethau Cefn Gwlad
 - ❖ Gwasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd
 - ❖ Gwasanaeth Priffyrdd
 - ❖ Gwasanaeth Cyfathrebu & Marchnata

Yn ogystal hoffem ddiolch i drigolion lleol, busnesau, unigolion a phartïon eraill oedd â diddordeb a gyfrannodd dystiolaeth ysgrifenedig, ffotograffig/fidio, ac ar lafar i'r Pwyllgor yn ystod yr adolygiad. Roedd bob ffurf o dystiolaeth a dderbyniwyd yn ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor i ddeall pryderon y cyhoedd am y tân a'i effaith ganlyniadol

4. Y digwyddiad tân a'i reolaeth

- 4.1 Oherwydd natur anrhagweladwy tanau rhostir ac amser hir y tân gwyllt arbennig yma ar Fynydd Llantysilio, roedd ymateb a rheolaeth y digwyddiad angen dull amlasiantaeth dros nifer o wythnosau.
- 4.2 Yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn ceir amserlen fanwl o'r sefydliadau i gyd oedd yn ymwneud â'r tân a gweithgareddau cysylltiedig o'r riportio cyntaf i'r Gwasanaethau Brys i'r datgan bod y tân wedi ei ddiffodd.
- 4.3 Yn eu tystiolaeth roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn cydnabod fod y tân ar Fynydd Llantysilio yn un o'r tanau gwyllt gwaethaf iddynt ddelio ag ef erioed.

Crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr amrywiol asiantaethau, sefydliadau ac unigolion yn ystod y cyfarfod ar 20^{fed} Mawrth, neu a ddarparwyd mewn ffurf ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod.

5. Rheolaeth tir

Sylwer os gwelwch yn dda bod unrhyw farn a fynegir yn yr adran hon yn rhai'r asiantaethau, sefydliadau, neu'r unigolion sy'n rhoi tystiolaeth, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

5.1 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Cyfoeth Naturiol Cymru a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 5.1.1 Dynodwyd Llantysilio yn SDGA oherwydd ei gymunedau cynefin rhostir a chrynodiad o adar bridio'r ucheldir sy'n cynnwys y grugiar ddu a'r gylfinir. Er gwaethaf y difrod helaeth a achoswyd gan y tân roedd y dynodiad dal yn ddilys, ond roedd y cynefin angen gwaith adfer sylweddol. Difrodwyd 250 hectar o'r cyfanswm 1150 hectar o SDGA (hyd at yr A542) gan y tân. O ganlyniad, golyga hyn newid ym mhatrymau pori'r cynefinoedd yn y tymor byr a chanolig. Roedd nawr angen cydweithio mewn partneriaeth yn effeithiol er mwyn cynorthwyo adferiad y mynydd.
- 5.1.2 Enwodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Rhostir Rhiwabon fel esiampl leol o rostir sy'n cael ei reoli'n effeithiol drwy losgi rhannau bach ar gylchdro a thorri. Ar y rhostir arbennig hwn y prif sbardun i reoli yw rheoli'r grugiar goch, lle ar Llantysilio nid oedd sbardun o'r fath a rheolwyd ardaloedd unigol drwy losgi neu dorri ardaloedd mwy i alluogi rheoli'r mynydd cyfan ar amserlen addas.
- 5.1.3 Mewn ymgais i fynd i'r afael â phryderon a sialensiau uniongyrchol ar y mynydd roedd CNC wedi rhoi tendr allan i osod cytundeb i sicrhau gwasanaethau arbenigwyr gyda phrofiad blaenorol o waith adfer ucheldir/rhostir oherwydd tân. Rhagwelir buasai cael arbenigwyr yn y maes yn cynorthwyo adferiad cynnar i gynefin y mynydd.
- 5.1.4 Er gwaethaf cymryd mesurau lliniaru ar rostiroedd fel Mynydd Llantysilio, roedd tanau yn debygol o ddigwydd yn ystod tywydd poeth neu gyfnodau estynedig o dywydd sych. Fodd bynnag, dylai rheoli bioamrywiaeth yn effeithiol leihau'r risg o'r rhain yn digwydd a lleihau'r tanwydd at gyfer y mathau yma o danau. Roedd Prosiect Tirwedd y Grug a'r Caerau, a fu'n weithredol rhwng 2005 a 2012, yn arf gwerthfawr i'r perwyl hwn (ceir gwybodaeth am y prosiect hwn ym mharagraff 5.2.5)
- 5.1.5 Cadarnhaodd CNC fod pori defaid, wedi'i gyfuno â llosgi dan reolaeth a thorri yn elfennau hanfodol ar gyfer cynnal a chadw'r rhostir. Yn ogystal mae rheoli tyfiant rhedyn ac eithin ynghyd â thyfiant coed a phrysgwydd ar rostir agored yn bwysig er mwyn cefnogi a chadw cynefin cytbwys iach. Caniatâ CNC losgi dan reolaeth ar dir SDGA yn unol â'r rheoliadau a osodir yng 'Nghod Llosgi

Grug a Glaswellt Cymru 2008¹ h.y. darpariaeth 'Cynllun Llosgi'. O dan Gynlluniau Llosgi roedd gan y sawl oedd yn gyfrifol am y llosgi cyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau fod digon o bobl ar gael ac adnoddau i reoli'r llosgi, hysbysu'r gwasanaeth tân ac achub am fanylion y llosgi arfaethedig, rhoi gwybod i gymdogion, perchnogion/deiliaid tir cyfagos etc. o'r bwriad i gynnal 'llosgi dan reolaeth'. Rheda'r tymor llosgi o 1^{af} Hydref i 31^{ain} Mawrth, o ddiwedd yr hydref a thrwy fisoedd y gaeaf.

- 5.1.6 Ar Fynydd Llantysilio hawliau pori yn unig oedd gan y porwyr, yr Ystâd a'r tiffeddianwyr oedd gan yr hawliau i geisio caniatâd i ymgymryd â llosgi dan reolaeth a gwaith torri/rheoli. Er nad oedd y tiffeddianwyr dan orfodaeth i ymgymryd â gwaith rheoli neu liniaru ar y mynydd, yn y gorffennol roedd y tiffeddianwyr a'r porwyr wedi ymgymryd â'r math yma o waith gyda chaniatâd CNC. Byddai'r tiffeddianwyr a CNC yn creu cynllun rheoli a chytuno arno a chaniatâ hyn a'r porwyr allu tynnu ar arian i ymgymryd â'r gwaith rheoli rhostir oedd ei angen. Roedd y gwaith yn ffurfio rhan o gytundebau rheoli ucheldiroedd gyda'r Ystâd dros bum mlynedd. Yn y gorffennol roedd y math yma o gytundeb wedi bod yn ei le, daeth y cytundeb olaf i ben 1^{af} Medi 2014 ac roedd yn cynnwys taliadau am losgi a thorri. Roedd y cytundebau rheoli yma yn ymwneud â rheoli cynefin, ni chafwyd erioed gytundebau yn ymwneud â lefelau stocio. Wrth edrych ymlaen roedd yn amlwg fod angen rheolaeth fwy gweithredol ar y mynydd nawr ac i'r dyfodol ac roedd CNC yn awyddus i'r porwyr, Gwasanaethau Cefn Gwlad a Chyngor Cymuned Llantysilio fod yn ymwneud â'r gwaith.
- 5.1.7 Cadarnhaodd CNC na chafodd hawl i ymgymryd â gwaith rheoli erioed ei wrthod yn ystod y cyfnod pan roedd y cytundebau rheoli ucheldir yn eu lle. Ar Fynydd Llantysilio ceisiodd CNC sicrhau fod llosgi neu dorri yn cael ei gadw o dan reolaeth drwy ganiatáu ardaloedd unigol o hyd at faint 1 hectar (2.5 erw) i gael ei losgi/dorri ar y tro. Caniatwyd i hyd at 10% o'r mynydd gael ei reoli mewn un tymor ar sail gylchdro o 10 mlynedd, roedd hyn yn cynnwys llosgi eithin er nid oedd modd hawlio ad-daliad ariannol tuag at losgi eithin.
- 5.1.8 Yn ychwanegol, roedd Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych yn annog porwyr ar y comin i ymgymryd â'r gwaith, a bu'r Gwasanaeth ei hun yn ymgymryd â gwaith rheoli yn yr ardal.
- 5.1.9 Er i 10 porwr fod â hawliau cofrestredig i droi defaid allan ar Fynydd Llantysilio, dim ond 4 o'r porwyr a ddefnyddia'r hawliau'n gyson. Cydnabyddir yn eang mai gan amlaf ni ddefnyddid hawliau pori oherwydd dirywiad yn yr economi amaethyddol, hefyd bu gostyngiad yn galw am yr oen mynydd Cymreig llai, y brîd brodorol a ffynnai ar y math hwn o dirwedd. Ailadroddwyd y sefyllfa yma ar draws Cymru. Roedd rheolaeth diadellau pori a chynefin yn gyfrifoldeb, a byddai'n parhau'n gyfrifoldeb, i'r porwyr, tra roedd rheolaeth gêm yn cael ei gyflawni gan y tiffeddianwyr.
- 5.1.10 Roedd CNC yn cydnabod fod angen ymgymryd â rhagor o reolaeth weithredol ar Fynydd Llantysilio, ynghyd â chynefinoedd tebyg eraill ar draws Cymru,

¹ Cod Llosgi Grug a Glaswellt Cymru 2008:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-01/heather-and-grass-burning-code.pdf>

nawr ac yn y dyfodol. Roedd y sefydliad yn annog ymarferion rheolaeth ac roeddynt am barhau i'w hannog yn y dyfodol.

- 5.1.11 Er fod gan CNC bwerau i orfodi tîrfeddianwyr/ porwyr i gydymffurfio gyda gofynion statudol SDGA, anaml iawn y'i defnyddir gan fod gwell gan CNC gydweithio â'r tîrfeddiannwr a'r porwyr i annog rheolaeth tir effeithiol. Roedd cyfle i gynlluniau rheoli tir gael eu creu a'r holl bartïon i gytuno arnynt, o dan y cynllun hwn gall CNC gynnig cymhellion fel taliadau tuag at gostau ymgymryd â gwaith rheoli tir.
- 5.1.12 Ni allai CNC orfodi'r porwyr i droi eu defaid allan ar y mynydd, dim ond eu hannog i ddefnyddio eu hawliau'n llawn. Yn anffodus, nid oedd polisïau amaethyddol a'r sefyllfa amaeth-economaidd yn ffafriol iawn tuag at y ddafad mynydd Gymreig llai a fyddai'n naturiol yn pori ardaloedd yr ucheldir fel Mynydd Llantysilio. Roedd y gofyn am yr oen mynydd llai wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, a chanlyniad hyn oedd gostyngiad ym mhrisiau marchnad y math yma o oen gan wneud eu cynhyrchu yn anhyfyw yn economaidd. O ganlyniad cafodd hyn effaith sgil-effaith ar bori mewn ardaloedd ucheldir ac ar reoli tir mewn ardaloedd ucheldir. O ganlyniad cafodd hyn sgil-effaith ar bori yn ardaloedd ucheldir ac ar reoli tir yn yr ardaloedd ucheldir. Petai'r stoc yn gadael y mynydd byddai'n anodd iawn rheoli'r mynydd a chynnal ei fioamrywiaeth a'i ecosystem iach. Felly byddai cyfarfodydd cyson i rannu gwybodaeth rhwng y rhanddeiliaid i gyd yn ddefnyddiol dros ben er mwyn cydbwysu safbwyntiau croes a chynorthwyo i ddeall blaenoriaethau ei gilydd.
- 5.1.13 Gan edrych i'r dyfodol roedd CNC yn gweithio gyda GTAGC i ddatblygu Cynlluniau Tân Tactegol Gweithredol ar gyfer y safleoedd o ucheldir oedd o dan y bygythiad mwyaf, a buasai Mynydd Llantysilio yn un ohonynt. Byddai'r Cynlluniau hyn yn manylu ar ffeithiau fel perchnogaeth tir, pwyntiau mynediad, cyflenwad dŵr etc. i alluogi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gael y wybodaeth yr oedd ei angen mewn un lle pan maent yn ymateb yn y dechrau. Cadarnhaodd GTAGC fod gwaith yn cael ei gynnal i ddatblygu Cynlluniau Tanau Gwyllt gyda CNC. Nodwyd hefyd buasai'r gwasanaeth yn croesawu unrhyw gyfleoedd hyfforddi i baratoi at y math hwn yma o ddigwyddiad.
- 5.1.14 Dymuna CNC weld partneriaeth rhwng y tîrfeddianwyr, porwyr, GTAGC, Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Dinbych a nhw eu hunain i wella rheoli rhostir ar yr holl rhostir yn Sir Ddinbych a lleihau'r risg o danau trychinebus. Ym marn CNC byddai penodi swyddog rheoli rhostir yn gymorth i dynnu'r math hwn o bartneriaeth at ei gilydd.
- 5.1.15 Yn ddibynnol ar gyfleoedd cyllido i gefnogi rheoli'r mynydd, gan gynnwys y gwaith adfer sydd ei angen, comisiynodd CNC asesiad trylwyr o gyflwr y mynydd, a fuasai'n cynnwys defnyddio drôn i gymryd lluniau manwl o'r ardal. Buasai'r asesiad yma cynorthwyo'r sefydliad i gynllunio'r gwaith tymor byr a thymor hir sydd ei angen ar y mynydd i gynorthwyo ei adferiad ac i geisio cyfleoedd cyllido i gwrdd â chost y gwaith.

5.2 Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Dinbych a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor.

- 5.2.1 Y broblem ar Fynydd Llantysilio ar hyn o bryd oedd dyfnder y llosg, mewn mannau byddai'n cymryd blynyddoedd i adfer strwythur y pridd ac roedd stoc hadau wedi eu dinistrio. Roedd risg o golli rhagor o bridd ar rannau penodol o'r mynydd drwy effeithiau gwynt a dŵr yn rhedeg arno. Er byddai'r ardal yn edrych yn llawer 'gwyrddach' yn ystod y flwyddyn i ddod buasai hyn yn digwydd oherwydd rhedyn ac eithin yn lledaenu i'r ardaloedd wedi eu llosgi. Roedd gan hyn y potensial i atal adferiad unrhyw grug neu lystyfiant rhostir a thyfiant cynhenid. Buasai'n cymryd cryn amser iddynt ddychwelyd, os o gwbl, gan y buasent yn cystadlu gyda rhedyn ac eithin. Cyflwyno hyn sialensiau ychwanegol i ail sefydlu pori ar y mynydd. Felly yn y tymor byr buasai tyfiant grug ar ardaloedd gwastad y mynydd yn allweddol. Yn y tymor hir y nod fuasai cael cydbwysedd o lystyfiant, nid goruchafiaeth eithin a rhedyn. Tra gellir trin rhedyn yn effeithiol drwy chwistrellu o'r awyr mae'n ddrud iawn, ond buasai'n fanteisiol iawn i boblogaeth y defaid a'r grugieir yn yr ardal gan fod ardaloedd o redyn yn dueddol o gynnwys nifer uchel o hisleuen sy'n broblemus i ddefaid a grugieir.
- 5.2.2 Roedd swyddogion AHNE a CNC wedi cyfarfod gyda'r porwyr i drafod cyfleoedd a sialensiau'r gwaith rheoli ar y mynydd yn dilyn y tân. Roedd CNC yn gweithio ar roi Cytundeb Rheoli yn ei le gyda'r thirfeddianwyr ar Llantysilio, buasai hyn yn darparu fframwaith ar gyfer taliadau i borwyr am waith rheoli a gytunwyd arno. Roedd un mater angen sylw'n syth yn ymwneud â stocio'r ardaloedd wedi eu llosgi a'u dinistrio. Cadarnhaodd CNC nad oedd yn edrych am unrhyw ostyngiad mewn stocio, ond roedd yn cydnabod y gall materion gyda stoc yn symud i ffwrdd o'u cynefinoedd traddodiadol yn yr ardaloedd yma i chwilio am borfa addas.
- 5.2.3 Mater arall a adnabuwyd oedd yr anhawster yn delio gydag eithin a phrysgwydd ar lethrau serth lle nad oedd posib eu cyrraedd gyda thractor a'r lethrau'n rhy serth i'w llosgi'n ddiogel. Gydag ardaloedd fel yn mewn golwg roedd y AHNE wedi sicrhau cyllid drwy Gadwyn Clwyd i dreialu ac arddangos *Robo-Flail* - peiriant ffustio heb yrrwr a oedd â'r gallu i weithio ar lethrau serth iawn. Roedd nifer o ddigwyddiadau arddangos i ffermwyr a thirfeddianwyr eisoes wedi eu cynnal yn yr ardal.
- 5.2.4 Pan fo amser ac adnoddau yn caniatáu byddai Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor yn parhau i gefnogi porwyr a oedd eisiau ymgymryd â gwaith rheoli ar Fynydd Llantysilio.
- 5.2.5 Roedd Prosiect Tirwedd y Grug a'r Caerau a gyllidwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a fu'n weithredol rhwng 2005 a 2012, yn cydnabod fod rhostiroedd ar draws y DU yn dirywio oherwydd rhwystrau i reoli cynaliadwy. O dan y prosiect penodwyd Swyddog Maes Rhostiroedd. Gweithiodd y swyddog gyda chymunedau amaethyddol i adnabod a goresgyn rhwystrau penodol i gadw'r ardaloedd hyn yn rhan o'r system amaethyddol ac i sefydlu

rhaglennu rheoli tymor hir a fyddai'n fanteisiol i bori ucheldir. Yn rhan o'r prosiect gwnaed gwaith sylweddol i leihau maint y rhedyn gyda chwistrellu o'r awyr, yn ogystal â gwaith gyda'r tiffeddianwyr a'r porwyr i wella cyflwr y rhostir. Yn ychwanegol yn ystod cyfnod y prosiect cynhyrchwyd mapiau o gyflwr y llystyfiant, ymgymeryd â rhaglenni llosgi a thorri gyda phorwyr a oedd wedi eu darparu ag offer ar gyfer rheoli rhostir, darparwyd arddangosfeydd a hyfforddiant (yn cynnwys gwaith gyda myfyrwyr yng Ngholeg Llysfasi), a gwnaed gwaith gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub i hyrwyddo llosgi a rheoli cyfrifol gyda'r bwriad o leihau llwyth tanwydd a bregusrwydd i'r mathau hyn o dân.

- 5.2.6 Yn ogystal, gweithiodd y Swyddog Maes Rhostiroedd gyda'r porwyr i gael yr hawliau Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) oedd ei angen gan CNC i ymgymryd â'r gwaith. Roedd y gofynion a ymwna â'r hawliau hyn yn aml yn peri rhwystrau i'r gwaith gael ei gynnal, felly roedd y Swyddog yn allweddol i oresgyn y rhwystrau hyn. Yn anffodus daeth y cyllid i ben ac nid oedd swydd Swyddog Maes Rhostiroedd yn bodoli mwyach. Ni chafwyd cyllid tebyg i gymryd ei le. Fodd bynnag, lle fo'n bosibl, parhaodd yr AHNE i gefnogi porwyr oedd eisiau ymgymryd â gwaith ar Fynydd Llantysilio ac i gynorthwyo porwyr gyda'r broses hawliau. Lle fo'n bosibl cynigwyd cefnogaeth ymarferol gyda llosgi a thorri drwy Dîm Ceidwad Ardal Gwasanaeth Cefn Gwlad Dinbych, a weithiai yn aml â myfyrwyr o Goleg Llysfasi.
- 5.2.7 Un dull posib o adfer cynefin y mynydd yn dilyn tân fyddai cludo grug wedi'i gynaeafu o rostir tebyg i Fynydd Llantysilio mewn ymgais i hadu'r mynydd. Os byddai'r dull yma yn cael ei gytuno dylai'r grug gael ei feilio a'i symud i'r mynydd yn ystod mis Hydref, gan y byddai hyn yn galluogi'r hadau i sefydlu dros gyfnod y gaeaf pan na fyddai da byw ar y mynydd. Roedd gan Wasanaethau Cefn Gwlad brofiad o gasglu malurion hadau grug i feilio ac ailhadu. Fodd bynnag, oherwydd y dirwedd, gallai mynediad i rannau o'r ardal a effeithiwyd fod yn anodd a gallai fod yn anodd i hyd yn oed 4x4 yrru arno. Yn ychwanegol, roedd posibilrwydd y byddai defnyddio cerbydau 4x4 yn achosi difrod pellach i wyneb y mynydd.
- 5.2.8 Roedd dyfodol y 'diadellau cynefin' yn bryder ar unwaith gan mai prin iawn fyddai'r borfa iddynt fwydo arno ar y mynydd. Os nad oeddynt yn cael eu troi allan ar y mynydd byddant yn colli eu galluoedd cynefino a fyddai'n arwain at gollu'r diadellau, a gadael y mynydd heb ei bori. Roedd y diadellau yma yn allweddol i reoli'r mynydd yn effeithiol ac yn cynorthwyo gyda'i fioamrywiaeth. Yn debyg i rostiroedd ucheldir eraill yng Nghymru, roedd Mynydd Llantysilio yn bennaf yn ardal o fynydd agored ac felly roedd yn rhaid iddo gael ei bori gan 'ddiadellau cynefin' o ddefaid. Byddai diadellau nad oedd yn rhai cynefin yn crwydro ar draws y mynydd ac ni fuasai'n bosibl eu rheoli oni bai bod y mynydd yn cael ei ffensio i adrannau, tasg a fyddai'n drwm ac yn anodd ei gyflawni o ystyried y dirwedd.
- 5.2.9 Roedd cynrychiolwyr o CNC a Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor wedi cyfarfod gyda Chymdeithas Porwyr gyda bwriad i'w cynorthwyo i gael gafael ar gyllid oedd ar gael drwy CNC i symud ymlaen gyda'r gwaith adfer a sicrhau hyfywedd tymor hir y mynydd. Roedd y gostyngiad yn y galw am ŵyn Mynydd Cymreig, yr un o'r ychydig fridiau gyda'r gallu i ffynnu ar y math yma o dirwedd, yn ychwanegu at broblemau oedd yn wynebu'r rheiny oedd yn rheoli

a phori ar y mynydd. Roedd ansicrwydd ynglŷn â pholisïau amaethyddol yn y dyfodol yn dilyn BREXIT hefyd yn ychwanegu at y broblem ac yn gwneud cynllunio yn anodd iawn.

- 5.2.10 Roedd CNC a Gwasanaethau Cefn Gwlad yn gadarn o'r farn fod deialog barhaus rhyngddyn nhw, perchnogion yr Ystâd a'r porwyr yn allweddol i sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd y mynydd yn y dyfodol. Roedd yn hanfodol fod y rhanddeiliaid i gyd yn rhannu gwybodaeth ac yn ymddiried yn y naill a'r llall er mwyn sicrhau llwyddiant wrth symud ymlaen.
- 5.2.11 Roedd taliadau ar gael yn barod drwy Gytundebau Rheoli CNC ar gyfer gwaith rheoli, ond roedd rhaid i dirfeddianwyr a phorwyr tir comin gytuno ar gynllunio rheoli a llosgi, gan gynnwys Cynllunio Rheoli Tân, er mwyn cael gafael ar yr arian. Os oedd dyfodol y mynydd am gael ei sicrhau roedd yn hanfodol fod Cytundebau Rheoli Adran 16 yn cael eu rhoi yn eu lle.
- 5.2.12 Efallai fod cyfleoedd o dan Fenter Gwella'r Dirwedd y National Grid (MGD), cynllun ad-dalu cymunedol a oedd ar gael i o leiaf un gymuned a ffiniai ar ardal y mynydd, i wireddu ychydig o adnoddau ariannol tuag at y gwaith adfer. Roedd felly'n bwysig i'r holl randdeiliaid ddod ynghyd a chytuno ffordd ymlaen mewn perthynas â'r gwaith adfer a dyfodol rheolaeth y mynydd er mwyn iddynt allu cael gafael ar y cyllid addas.
- 5.2.13 Ceisiodd Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych a GTAGC ar y cyd am arian lleihau risg tân. Yn anffodus roedd y bid yn aflwyddiannus.

5.3 Tirfeddianwyr

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn y Tirfeddianwyr a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 5.3.1 Dywedodd cynrychiolwyr o Ystâd Llantysilio pan werthwyd eiddo yn yr ardal gyda hawliau pori ychydig iawn o'r perchnogion Newydd oedd eisiau gwneud defnydd o'r hawliau pori a oedd ynghlwm â'r eiddo.
- 5.3.2 Nid oedd gan y tirfeddianwyr eu hunain yr adnoddau oedd eu hangen i ymgymryd â llosgi dan reolaeth ond roeddynt yn rhoi caniatâd i borwyr a phartïon eraill oedd â diddordeb mewn ymgymryd â gwaith rheoli cynefin wedi ei gytuno a oedd yn cynnwys rheoli grug, rhedyn ac eithin. Roedd y cytundebau oedd yn eu lle hefyd â darpariaeth i'r awdurdodau i ymgymryd â'r gwaith rheoli hyn.
- 5.3.3 Ar hyn o bryd roedd yr Ystâd ymhell i mewn i drafodaeth gyda CNC ynglŷn â chytundebau rheoli ar gyfer y mynydd. Roedd yr Ystâd yn awyddus i ymrwymo â chytundebau rheoli gyda CNC er mwyn cynorthwyo'r porwyr gael gafael ar y cyllid rheoli tir oedd ar gael. Yn ychwanegol, roedd yr Ystâd yn fodlon ymgymryd ag ychydig o'r gwaith rheoli ei hun. Oherwydd y dirwedd buasai rheolaeth fecanyddol o'r mynydd yn profi'n anodd iawn mewn rhai manau. Cadarnhaodd yr Ystâd ei barodrwydd i gydweithio gyda'r awdurdodau mewn perthynas â rheoli yn y dyfodol.

5.4 Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 5.4.1 Yn ôl Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant nid oedd mynydd Llantysilio ar ben ei hun mewn perthynas â statws cynefin presennol a'r diffyg rheoli cyffredinol. Mewn sawl ardal ar draws Gogledd Cymru, a gweddill Cymru, roedd niferoedd da byw wedi gostwng am sawl rheswm, roedd y rhain yn cynnwys rhesymau polisïau gwleidyddol ac amaethyddol. Y teimlad cyffredinol ymhlith y porwyr oedd y byddai'r dirywio yma'n parhau. Roedd nifer y porwyr yn gostwng, gan arwain at lai o weithlu ar gael i reoli cynefin yn arferol. Gan nad oedd y cynefin yn cael ei reoli, roedd mynediad at borfa yn gyfyngedig ac roedd hwsmonaeth, casglu etc. yn mynd yn anoddach.
- 5.4.2 Oherwydd y ffaith fod ŵyn Mynydd Cymreig sy'n cael eu cynhyrchu yn yr ardaloedd yma 'allan o ffasiwn' ac yn cynhyrchu llai o incwm na'r bridiau mwy'r iseldir, roedd llai o gymhelliant yn bodoli i gadw diadellau o ddefaid Mynydd Cymreig pur a bridiau eraill o ddefaid mynydd.
- 5.4.3 Ym marn Cymdeithas Porwyr dylid llunio a chytuno ar bolisi cydweithredol rhwng y partïon i gyda sydd â diddordeb mewn rheoli hwn ac ardaloedd eraill, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, y tiffeddianwyr a'r porwyr.
- 5.4.4 Roeddynt hefyd yn gadarn o'r farn bod angen newid safiad gyda llacio ychydig ar y rheolau oedd wedi cyfyngu rhai ymarferion rheoli tir. Ar Fynydd y Berwyn gwnaed strimynnau atal tân sylweddol gan CNC, roedd y rhain yn ychwanegol i'r blociau bach o dir a reolwyd yn y gorffennol.
- 5.4.5 Hoffai'r porwyr weld torri neu losgi strimynnau atal tân yn cael eu hail gyflwyno. Roedd angen hefyd i reoli darnau mwy fel yn y gorffennol, a hyn yn ychwanegol i'r arfer mwy diweddar o reoli blociau bach yn unig. Roedd hefyd angen i gynyddu maint y lleiniau ochr ffordd gael, iddynt fod digon llydan i atal unrhyw dân a achosir gan fodurwyr yn pasio heibio.
- 5.4.6 Yn ôl y Gymdeithas Porwyr roedd teimladau cryf ymhlith y porwyr fod CNC wedi mynd â chyfrifoldeb am reoli'r mynydd oddi ar y ffermwyr mynydd, a wnaeth eu rhybuddio am y peryglon posib eu hymarfer rheoli ond fe anwybyddwyd eu cyngor. Teimla'r porwyr fod statws SDGA y mynydd yn ychwanegu at broblem defnyddio ymarferion rheoli, gan fod rhaid alinio'r tywydd ffafriol â'r caniatâd i ymgymryd â'r gwaith. Roedd teimlad ymhlith y porwyr fod taliadau rheoli tir yn anodd cael gafael arnynt ac yn golygu cryn dipyn o fiwrocratiaeth.
- 5.4.7 O ran ailsefydlu a rheolaeth Mynydd Llantysilio yn y dyfodol holltwyd y farn rhwng yr amrywiol rhanddeiliaid ynglŷn â'r ffordd ymlaen a rheolaeth y mynydd yn y dyfodol.

- 5.4.8 Yn ffodus, roedd gan natur y gallu i adfywio'i hun a byddai aildyfu, fodd bynnag ar hyn o bryd ni wŷr beth fyddai lefel y llwyddiant yn nhermau math o blanhigion etc. Ni wŷr chwaith beth oedd maint tymor hir y dinistr a achoswyd i strwythur pridd, gyda hyn yn arwain at erydu yn ei amrywiol ffurf gyda gostyngiad yn ffrwythlondeb cyffredinol y pridd i gynnal aildyfu llystyfiant.
- 5.4.9 Roedd rheolaeth y comin yn anodd, ond nid oedd Mynydd Llantysilio yn unigryw yn y sefyllfa hon, roedd y ffactorau sylfaenol yn effeithio tiroedd comin ar draws Cymru.
- 5.4.10 Roedd tuedd sylfaenol yn y gostyngiad yn y porwyr yn defnyddio'u hawliau. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn y niferoedd o ddefaid, ased amhrisiadwy mewn rheoli cynefin. Ar y cyd â hyn oedd y gostyngiad yn y llafur oedd ar gael i ymgymryd â gwaith rheoli cynefin. Yn bresennol, oherwydd nifer o ffactorau, ac economeg yn un ohonynt, nid oedd arwydd o newid arwyddocaol yn y duedd hon.
- 5.4.11 Ffactor niweidiol arall oedd y lefel o lywodraethu a dybir. Roedd Mynydd Llantysilio ynghyd â llawer o rhai eraill wedi eu dynodi'n SDGA ac ACA ac felly'n disgyn o fewn cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i unrhyw reoli cynefin gael ei awdurdodi gan CNC. Roedd y cyfleoedd ar gyfer llosgi/torri etc. yn fyr, ac roedd angen i weithredu ar eithaf byr rybudd pan oedd y ddaear a'r amodau atmosfferig yn gywir. Yn ogystal roedd pryder ymhlith unigolion petai camgymeriadau yn cael eu gwneud byddant yn agored i erlyniad a chosbau ariannol. Oherwydd y cyfyngiadau hyn roedd ffermwyr i raddau helaeth ofn ymgymryd â gwaith rheoli tir oherwydd y dirwyon a gellir eu gosod arnynt petai rywbeth yn mynd o'i le. Yn gyffredinol roedd arnynt ofn CNC, roeddynt yn eu tybio'n gorff pwerus iawn. Os oedd unigolyn yn derbyn llythyr yn eu rhybuddio am rywbeth oedd wedi digwydd yn ddamweiniol, roeddynt yn wylidwrus iawn ynglŷn ag ymgymryd unrhyw waith arall rhag ofn i rywbeth fynd o'i le.
- 5.4.12 Er mwyn gwella lefel rheoli cynefin a lleihau'r posibilrwydd o achosion o dân yn y dyfodol ac i arwain i reoli tir yn fwy effeithiol roedd rhaid cael gwell cydlyniant rhwng y partïon i gyd, ymwybyddiaeth o anghenion y naill a'r llall a nod cyffredin. Roedd angen newid mewn agwedd gan ffermwyr, tîrffeddiawyr, porwyr ac asiantaethau fel ei gilydd.
- 5.4.13 Y sefyllfa ddelfrydol fyddai penodi person i gydlynu a datblygu cynllun cydlynus, wedi ei gymeradwyo gan yr holl bartïon â diddordeb. Yn dilyn hynny byddai'r cydlynnydd yn rhoi'r cynigion ar waith, a monitro eu cyflawniad.

5.5 Sylwadau'r cyhoedd/ trigolion yn y cyfarfod:

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn yr unigolion a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 5.5.1 Ynglŷn â materion rheoli tir, yn ychwanegol i'r pwyntiau a godwyd gan rai o oedd yn rhoi tystiolaeth yn y cyfarfod, derbyniwyd y sylwadau canlynol gan drigolion a'r cyhoedd - yr angen i:

- cynllunio rhestr o strimynnau atal tân wedi ei bennu o flaen llaw;

- rheoli'r tir yn effeithiol er budd pawb

5.6 Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan aelod o'r cyhoedd yn dilyn y cyfarfod

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn yr unigolyn a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 5.6.1 Dywedodd aelod o'r cyhoedd a fu'n dyst i'r tân llynedd ac sy'n ymweld ardal Llangollen yn rheolaidd, ei fod wedi gweld y diraddiad difrifol a oedd wedi digwydd. Roedd o'r farn fod yr ardal a ddinistriwyd gan y tân yn ganolog i atyniad yr ardal i gerddwyr. Gan ei fod yn byw yn ardal Derbyshire/ Swydd Efrog darparodd wybodaeth ar yr ymdrechion helaeth a wnaed yn yr ardal yna o'r DU mewn ymgais i wrth-droi diraddiad y rhostiroedd (e.e. Bleaklow a Kinder). Awgrymodd y byddai'n fuddiol o bosib i gysylltu ag Ystâd Chatsworth a fu'n ail-blannu grugoedd a rhywogaethau eraill o dan fygythiad, gan efallai eu bod mewn sefyllfa i gynnig cymorth neu gyngor ar gamau adfer. Awgrymodd hefyd y gellir gwahodd Coleg Llysfasi i'w cynnwys yn y gwaith adfer a gellir rhoi ystyriaeth i gynnwys gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Crynodeb o'r dystiolaeth a roddwyd gan yr amrywiol asiantaethau, sefydliadau ac unigolion yn ystod y cyfarfod ar 20fed Mawrth neu a ddarparwyd ar ffurf ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd yn y cyfarfod.

6. Y digwyddiad tân

Sylwer os gwelwch yn dda bod unrhyw farn a fynegir yn yr adran hon yn perthyn i'r asiantaethau, sefydliadau, neu'r unigolion yn rhoi tystiolaeth, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor.

6.1 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor.

- 6.1.1 Cadarnhaodd swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod yr alwad 999 mewn perthynas ar brif dân gwyllt ar Fynydd Llantysilio, wedi'i dderbyn yng Nghanolfan Reoli'r Gwasanaeth yn Llanelwy am 2.20pm ar 19^{eg} Gorffennaf 2018. Riportiodd yr alwad yma am dân yn llosgi ar y mynydd. O ganlyniad i'r alwad hon deliodd y Gwasanaeth Tân ac Achub gyda'r digwyddiad o hynny tan iddo gael ei gau'n swyddogol am 1.45pm ar 25^{ain} Medi 2018. Yn ystod y cyfnod hwn roedd cyfarpar tân a swyddogion ar leoliad yn barhaol o 19^{eg} Gorffennaf dan 13^{eg} Medi 2018.
- 6.1.2 Ynglŷn â'r tân ar y mynydd y diwrnod blaenorol, 18^{fed} Gorffennaf, y gwnaethant gadarnhau eu bod yn bresennol, dywedodd y Gwasanaeth fod hwn yn ddigwyddiad ar wahân a heb fod yn gysylltiedig i'r un y'u galwyd iddo ar 2.20pm ar 19^{eg} Gorffennaf. Mae GTAGC yn hyderus y diffoddwyd y tân ar 18^{fed} Gorffennaf ac nad hwnnw wedi ailgynnau oedd y tân ar y 19^{eg} fel awgrymwyd gan rai. Roeddynt yn gwrthbrofi'r awgrymiad hwn yn gryf gan fod y tân ar 19^{eg} Gorffennaf wedi dechrau rhyw 361 medr, oddeutu chwarter milltir, i ffwrdd o leoliad tân y noson cynt. Yr ail dân oedd yr un a barhaodd i losgi a mudlosgi am dros chwe wythnos. Ym marn broffesiynol y Gwasanaeth Tân ac Achub roedd yn amlwg iawn nad oedd yr y tân blaenorol wedi ailgynnau.
- 6.1.3 Yn ôl GTAGC yn yr achos penodol hwn o dân gwyllt roedd yr amodau ar y ddaear ac yn atmosfferig wedi creu 'storm berffaith' - roedd cyfuniad o dirwedd anodd, daear sych iawn, tyfiant arbennig o sych a bodolaeth mawn yn golygu y gall y tân barhau i losgi o dan y ddaear am gyfnod hir o amser, gan hynny ni wnaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub datgan y tân wedi'i ddiffodd tan Fedi.
- 6.1.4 Cadarnhaodd GTAGC nad oedd achos y tân erioed wedi'i sefydlu.
- 6.1.5 O safbwynt logistaidd nid oedd mynediad i'r mynydd wedi peri problemau mawr i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gan fod gan y Gwasanaeth y gallu i gludo personél i ardaloedd mawr, anghysbell. Fodd bynnag, roedd natur anrhagweladwy'r dirwedd a thraciau'n dadfeilio wedi achosi problemau i'r Gwasanaeth gyda chael cerbydau i eithafoedd y mynydd. Canlyniad hyn

oedd bod y Gwasanaeth wedi cael difrod i nifer o gerbydau wrth geisio ymladd y tân. Roedd topograffi'r ardal, diffyg rheoli tir yn gadarn yn arwain at nifer cyfyngedig o strimynnau atal tân, llystyfiant dwys a bodolaeth isdyfiant sych wedi pydru yn cuddio gwagleoedd yn sialens ac yn broblem. Roedd dwyster y llystyfiant ac isdyfiant yn ymddwyn fel 'tanwydd' i'r tân, tra roedd y dirwedd a bodolaeth gwagleoedd yn fygythiad i iechyd a diogelwch i bersonél y Gwasanaeth Tân ac Achub a geisiai lywio'r mynydd i ddiffodd y tân, boed hynny ar droed neu mewn cerbydau.

- 6.1.6 Cynhaliwyd y gweithrediad tân cyfan yn unol â Threfn Gorchymyn Digwyddiad cydnabyddedig. Wedi cyrraedd byddai personél y Gwasanaeth Tân ac Achub yn riportio i'r Uned Gorchymyn Digwyddiad (UGD) lle byddant yn cael eu briffio ar y digwyddiad hyd at y pwynt hwnnw, cyn i newid shift ddigwydd a'r shift newydd yn cymryd cyfrifoldeb am ddelio gyda'r digwyddiad. Gan mai GTAGC oedd â rheolaeth gyffredinol am y digwyddiad, roedd gan yr holl asiantaethau a sefydliadau a ymwnâi â'r tân gyfrifoldeb i riportio i'r UGD.
- 6.1.7 Ymwelwyd â phob eiddo yn y cyffiniau gan bersonél Gwasanaeth Tân ac Achub neu'r Heddlu a rhoddwyd cyngor diogelwch a lles. Ni chododd yr angen i wacáu.
- 6.1.8 Cadarnhaodd personél Gwasanaeth Tân ac Achub fod y Gwasanaeth wedi derbyn cynigion o gymorth gan ffermwyr a thrigolion lleol. Er bod cynigion o'r fath yn cael eu gwerthfawrogi ac yn dda eu bwriad, roedd penderfyniadau ynglŷn ag un ai derbyn neu wrthod y cynigion yn gorfod cael eu gwneud gan y Comander Digwyddiad ar ddyletswydd, wedi ei seilio ar eu hyfforddiant a barn broffesiynol a gan ystyried y risgiau oedd yn bodoli ar y pryd. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath byddai'r Comander Digwyddiad yn ystyried ffactorau eraill fel cyfeiriad y gwynt a ragwelir a data a gwybodaeth a ddilyswyd gan asiantaethau cydnabyddedig eraill fel y Swyddfa Feteorolegol a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Gwnaed y penderfyniad i gyfyngu mynediad i gerbydau a phersonél nad oedd yn perthyn i'r Gwasanaeth ar ochr y mynydd oedd yn llosgi yn llwyr ar sail y risg i bwy bynnag fyddai'n ceisio'r fath weithred, ynghyd â dim gwarant y byddai torri ystod eang o llystyfiant yn atal y tân yn ei unfan. Fodd bynnag, roedd y cyngor a gwybodaeth a dderbyniwyd gan ffermwyr a thrigolion mewn perthynas â'r ardal leol wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r Gwasanaeth. Roedd GTAGC hefyd yn ddiolchgar i drigolion a busnesau lleol am y cynnig o fwyd a diod, ni dderbyniwyd y rhain gan fod gan y Gwasanaeth weithdrefnau yn eu lle i sicrhau anghenion lles y personél.
- 6.1.9 Yn garedig iawn cynigiodd rhai ffermwyr ddarparu dŵr a'i gludo i'r Gwasanaeth i gynorthwyo gydag ymladd y tân, ond nid oedd angen hyn gan fod gan y Gwasanaeth fynediad at gyflenwad digonol ddŵr o'r system ddŵr cyhoeddus i gyrraedd eu hanghenion. Mae holl gyfarpar GTAGC wedi ei osod ag unedau data symudol, mae'r rhain yn dangos yr wybodaeth ddiweddaraf ar leoliadau hydrantau tân yn yr ardal leol i'w galluogi i ddod o hyd iddynt a chael mynediad atynt yn sydyn. Mae'r ardal o fewn ac o gwmpas Mynydd Llantysilio yn cael ei wasanaethu gan ddau gwmni dŵr, Dŵr Cymru Welsh Water a Hafren Dyfrdwy. Roedd gan y Gwasanaeth

berthynas weithio dda a sianel gyswllt effeithiol gyda'r ddau gwmni.

- 6.1.10 Gwnaed bob penderfyniad yn ymwneud â thorri strimynnau atal tân etc. yn dilyn trafodaethau gyda sefydliadau partner, gan and oes gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yr offer addas na cherbydau i ymgymryd â'r math yma o waith.
- 6.1.11 Cadarnhaodd GTAGC yn ystod y tân rhoddwyd ystyriaeth i fuddiannau defnyddio awyren ar gyfer pwrpasau ymladd tân, ond roedd costau defnyddio'r dull hon yn rhy ddrud. O ran cael gafael ar Gymorth Sifil i gynorthwyo gyda'r gost o ddelio gyda'r tân, cadarnhaodd GTGC fod Cymorth Sifil yn broses statudol wedi ei awdurdodi gan Lywodraeth Ganolog. Rhoddwyd hyn i ddelio a thannau gwyllt mewn ardal fel Rhostir Saddleworth. Fodd bynnag, fe'i rhoddir pan nad oes adnoddau digonol ar gael i gyrraedd yr anghenion i ddelio gyda digwyddiad. Nid dyma'r achos mewn perthynas â'r tân ar Fynydd Llantysilio gan fod gan GTAGC adnoddau digonol i gyrraedd ei anghenion wrth ymladd y tân.
- 6.1.12 O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 gall unrhyw sefydliad sydd yn ymwneud â'r Fforwm Gwydnwch Lleol (FGL) ddynodi digwyddiad yn 'ddigwyddiad mawr/brys'. Fforwm wedi ei Sefydlu mewn ardal heddlu yw FGL gan ymatebwyr brys allweddol ac asiantaethau cefnogi penodol. Mae FGL yn ofyniad o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Pwrpas proses y FGL yw sicrhau cyflawni dyletswyddau yn effeithiol o dan y Ddeddf sydd angen eu datblygu mewn amgylchedd amlasiantaeth ac yn unigol fel ymatebwr Categori 1. Fodd bynnag, mae'r term ' digwyddiad mawr/brys' yn golygu pethau gwahanol i asiantaethau gwahanol o fewn yr FGL. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn delio gyda sefyllfaoedd 'brys' fel rhan o'i fusnes o ddydd i ddydd. O'u safbwynt nhw, nid oedd y digwyddiad tân ar Fynydd Llantysilio yn cyrraedd a'u diffiniad nhw o 'ddigwyddiad mawr' achos mewn terminoleg Gwasanaeth Tân ac Achub 'digwyddiad mawr' yw digwyddiad lle nad oes gan y Gwasanaeth adnoddau digonol i ymateb a delio gyda fo. Roedd gan y Gwasanaeth adnoddau digonol i ddelio gyda'r digwyddiad er gwaethaf ei hyd.
- 6.1.13 Roedd gan GTAGC Gynllun Cyfathrebu i ddelio gyda digwyddiad tân Mynydd Llantysilio a rhoddwyd y cynllun hwn ar waith. Roedd Ystafell Rheolaeth y Gwasanaeth nawr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r cyfathrebu wrth ddelio gyda digwyddiadau, mewn ymgais i roi gwybodaeth a sicrwydd i'r cyhoedd ynglŷn â beth oedd yn digwydd.
- 6.1.14 Yn dilyn ei adolygiad o Dân Gwyllt Llantysilio roedd y fforwm Gwydnwch Lleol (FGL) o'r farn fod sefydliadau partner wedi cydweithio'n gyson dda a'i gilydd dros gyfnod hirfaith mewn perthynas â'r digwyddiad hwn. Fodd bynnag, awgrymodd y buasai digwyddiadau yn y dyfodol yn elwa o sefydlu Grŵp Cydlynu Tactegol (GCT) gyda'r pwrpas o ddarparu negeseuon cyson, rhagweithiol sydd wedi cael eu cytuno arnynt i'r cyhoedd. Serch hynny, roeddynt yn cydnabod y buasai'n anodd iawn, os nad amhosib, i atal gwybodaeth anghywir rhag cael ei ledaenu gan y cyhoedd ar gyfryngau cymdeithasol.
- 6.1.15 Nododd GTAGC fod y Gwasanaeth yn falch iawn o'i holl staff a fu'n ymwneud ag ymateb a delio gyda'r tân dros gyfnod estynedig o amser o dan amgylchiadau a oedd yn anodd a heriol iawn. Gyda'r Gwasanaeth yn

ddibynnol ar nifer uchel o ddiffoddwyr tân rhan-amser, roedd yn ddyledus i brif gyflogwyr ar draws Gogledd Cymru oedd wedi rhyddhau staff o'u prif gyflogaeth am gyfnod estynedig o amser i fynychu'r tân a rhyddhau staff eraill. Er bod y tân yn lleol i ardal Llangollen o ran safbwynt staffio Gwasanaeth Tân ac Achub cafodd effaith ar ardal Gogledd Cymru i gyd, oherwydd ar un adeg neu'r llall roedd bob un o'i 44 stesion wedi cael eu cynnull i gynorthwyo gyda chadw'r tân dan reolaeth. Yn dilyn y digwyddiad derbyniodd y Gwasanaeth gyfanswm o 104 cyfathrebiad gan aelodau'r cyhoedd yn cofrestru gwerthfawrogiad am waith y Gwasanaeth a'u hymdrechion yn taclo'r tân.

6.2 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Cyfoeth Naturiol Cymru a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.2.1 Cyfres o Unedau Tir Comin cyffiniol cofrestredig yw Mynydd Llantysilio. Pedwar prif dirfeddianwyr yw perchnogion y rhydd-ddaliad gyda nifer o dirfeddianwyr llai o gwmpas cyrion y mynydd. Mae'r mwyafrif o'r SDGA yn rhan hefyd o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd (ACA). Mae'r dynodiad Ewropeaidd hwn yn tanlinellu pwysigrwydd cyfandirol y cynefinoedd rhostir a geir ar Fynydd Llantysilio. Mae'r tir hwn i gyd o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).
- 6.2.2 Gan fod y tir a effeithiwyd gan y tân mewn perchnogaeth breifat roedd rôl CNC yn ymatebwr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Roedd ganddo hefyd rôl i'w chyflawni fel Awdurdod Cadwraeth Cymru mewn perthynas â'r SDGA. Fel ymatebwr Categori 1 roedd gan CNC gyfrifoldeb cyfreithiol pwysig i ymateb yn uniongyrchol i'r digwyddiad a chefnogi rolau rheolaeth digwyddiad sefydliadau eraill h.y. GTAGC, Heddlu a Chyngor Sir Dinbych drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth.
- 6.2.3 O gychwyn y digwyddiad darparodd CNC gwybodaeth a chyngor i GTAGC a gweithiodd yn agos gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor a oedd allan ar y safle. Yn ogystal darparodd offer a gweithredwyr medrus ar gais. Fel arfer defnyddir yr offer hwn ar Warchodfa Natur Genedlaethol y Berwyn (NNR) sy'n eiddo ac o dan reolaeth CNC. Pan ddefnyddiwyd yr offer ar Fynydd Llantysilio gwnaed o dan gyfarwyddwyd GTAGC, fel arweinydd y digwyddiad.
- 6.2.4 Cadarnhaodd CNC nad oedd unrhyw unigolyn, contractwr na chwmni/busnes wedi mynd atynt i chwilio am hawl i dorri strimynnau atal tân, nid oeddynt chwaith wedi gwrthod defnyddio torri neu unrhyw beiriant arall gan unrhyw un arall. Roedd penderfyniadau ynglŷn â phwy wnâi ymgymryd â'r gwaith, ac amseru'r gwaith hwnnw, yn gorwedd gyda GTAGC fel arweinydd y digwyddiad.
- 6.2.5 Pwysleisiodd CNC mewn argyfwng fel hwn, ni fyddai penderfyniadau gweithredol h.y. caniatáu hawl i dyllu ffosydd neu dorri strimynnau atal tân yn golygu ymarfer llenwi ffurflenni biwrocraidd. Buasent yn cael eu cymryd ar y llawr gan y Rheolwr Technegol ar Ddyletswydd (DTM) wedi cymryd asesiad risg ar faterion fel effaith posibl ar gysiau dŵr a chyflenwadau dŵr etc.

6.2.6 Yn dilyn ei brofiad o fod yn ymwneud a than Llantysilio teimla CNC bod angen i sianelau cyfathrebu rhwng y gwahanol asiantaethau a sefydliadau a fyddai ynghlwm â digwyddiadau tebyg yn y dyfodol gael ei gydlyn yn fwy effeithiol, er mwyn hwyluso darparu negeseuon ymarferol ac amserol i drigolion a phartion eraill a effeithir.

6.3 Heddlu Gogledd Cymru (HGC)

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Heddlu Gogledd Cymru a fynegir isod, nid ydynt o reidwydd yn rhai'r Pwyllgor

6.3.1 Yn bennaf roedd yr Heddlu wedi bod yn ymwneud â'r tân drwy gau ffyrdd ar frys. Mynegodd Heddlu Gogledd Cymru ei ddiolchgarwch i bersonél GTAGC am eu hymdrechion yn ymladd y tân, a'r cyhoedd a fu'n garedig yn cynnig lluniaeth i'r rhai oedd y presennol yn y lleoliad. Roedd personél HGC a gynorthwyodd gyda'r sefyllfa brys ar y pryd wedi cael eu cydnabod gan y Gwasanaeth Heddlu am gymryd rhan gyda'r digwyddiad.

6.3.2 Pwysleisiodd HGC er bod pwerau mewn perthynas â chau ffyrdd mewn argyfwng yn gorwedd gyda Gwasanaeth yr Heddlu, ymgymeryd â chau ffyrdd mewn cyswllt â GTAGC ac Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych.

6.3.3 Cafwyd cadarnhad gan yr Heddlu nad oedd unrhyw dystiolaeth wedi ei ddarganfod fod y tân yn ganlyniad i drosedd.

6.4 Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych a fynegir isod, nid ydynt o reidwydd yn rhai'r Pwyllgor

6.4.1 Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych yn berchen ar ddau 'fire fogger', maent yn offer arbenigol effeithiol iawn wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer tanau rhostiroedd. Maent yn gweithio drwy system pibell pwysedd uchel sy'n chwistrellu niwl mân dros y tân i'w tal rhag cael ocsigen. Maent yn effeithiol dros ben ac yn defnyddio cyfaint gymharol isel o ddŵr, felly'n ddelfrydol ar gyfer gweithio mewn llefydd anghysbell. Gosodir y 'fire fogger' ar gefn lori godi gyffredin felly maent yn symudol iawn. Sicrhaodd y Cyngor fod y ddau yma ar gael i GTAGC eu defnyddio, wrth i swyddogion Gwasanaeth Cefn Gwlad gydweithio gyda phersonél Gwasanaeth Tân ac Achub gyda chymeradwyaeth yr Uned Rheolaeth Digwyddiad yn ystod y tân.

6.4.2 Roedd swyddogion y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn adnabod staff CNC a'r porwyr lleol gan iddynt gydweithio â nhw ar faterion rheoli tir am sawl blwyddyn. Yn ystod y tân roedd swyddogion Gwasanaeth Cefn Gwlad a'r porwyr yn gallu rhoi cyngor i GTAGC ynglŷn â'r ardal, tirwedd ac arwain personél y Gwasanaeth Tân ac Achub ar sut i gael mynediad at y mynydd.

- 6.4.3 Cadarnhawyd fod swyddogion Gwasanaethau Cefn Gwlad yn gweithio o dan gyfarwydddeb GTAGC yn ystod y tân, o ganlyniad ni thorwyd strimynnau atal tân ddim cynt na 27^{ain} Gorffennaf 2018, y dyddiad cyntaf wnaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub ofyn i'r Gwasanaeth Cefn Gwlad eu torri. Yn debyg i CNC, ni wnaeth trydydd parti atynt gyda chais i dorri strimynnau atal tân. Roedd personél Gwasanaethau Cefn Gwlad o'r farn efallai fod torri strimynnau atal tân yn ymddangos fel yr ateb gorau i atal datblygiad tân, nid oeddynt bob tro yn ateb effeithiol gan fod y tân yn parhau i losgi o dan y ddaear, yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd lefel uchel o fawn, fel y gwelir ar Fynydd Llantysilio. Yn ogystal mae bodolaeth gormod o strimynnau atal tân rhagofalus ar ucheldir pori yn dueddol o ddrysu diadellau cynefin.
- 6.4.4 Cadarnhaodd Swyddogion o'r Gwasanaeth Cefn Gwlad fod perthynas weithio dda wedi bodoli rhwng swyddogion y Gwasanaeth a'r rheiny o GTAGC a CNC drwy gydol y digwyddiad tân. Fe wnaethant hefyd gadarnhau fod GTAGC mewn rheolaeth gyffredinol o'r ymateb a rheolaeth y digwyddiad tân drwy gydol ei hyd.

6.5 Gwasanaeth Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Gwasanaeth Priffyrdd Sir Ddinbych a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.5.1 Daeth mewnbwn cyntaf Gwasanaeth Priffyrdd y Sir i'r tân a'i faterion cysylltiedig yn hwyr ar bnawn Gwener 27^{ain} Gorffennaf 2018. Daeth drwy gais gan gydweithwyr yng Ngwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor yn gofyn am ddefnydd peiriant ffustio i dorri rhedyn ar ochr y briffordd ar Fwllch y Oernant.
- 6.5.2 Dros nos ac i mewn i ddydd Sadwrn gwaethygodd y sefyllfa wrth i'r tân (a'r mwg cysylltiedig) symud tuag at y briff ffordd. Ar y pwynt hwn gwnaed cais i'r Gwasanaeth i gau'r ffordd, felly rhoddwyd conau allan ac arwyddion 'Ffordd ar Gau' a dim arwyddion ffordd gwyro yn eu lle. Daeth y cais hwn hefyd drwy staff Gwasanaeth Cefn gwlad y Cyngor, nhw oedd yr unig bwynt cyswllt oedd gan y Gwasanaeth Priffyrdd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn anffodus anwybyddwyd yr arwyddion gan yrwyr a chreodd broblemau yn nhermau sicrhau na ellir cael mynediad ar y ffordd.
- 6.5.3 Yn ystod y dydd, ac yn enwedig tua min nos, gwaethygodd yr amodau wrth i'r tân agosáu tuag at Gaffi Ponderosa a gofynnwyd i'r Gwasanaeth Priffyrdd i 'gryfhau' y cau drwy staffio manau rheoli, gan fod pobl dal yn dewis gyrru trwy'r ardal. Gwnaed cryn ymdrech i wneud y trefniadau ond erbyn i'r Gwasanaeth Priffyrdd gael gweithwyr yn eu lle cafodd y Gwasanaeth wybod fod Heddlu Gogledd Cymru wedi dod o hyd i'r adnoddau i staffio'r cau eu hunain felly fe wnaeth y Gwasanaeth Priffyrdd sefyll ei griwiau i lawr.
- 6.5.4 Ar y dydd Sul roedd yr amgylchiadau wedi eu lleddfu ychydig ond roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub dal eisiau'r ffordd fod ar gau ac roedd ei staffio yn y tymor hir am fod yn annichonadwy i'r Gwasanaeth Priffyrdd. Gyda dim ond ychydig gonau yn eu lle'r oedd yn glir y byddai defnyddwyr y ffordd yn parhau i'w gamddefnyddio drwy geisio defnyddio'r ffordd ac felly'n rhoi eu hunain a

phersonél y gwasanaeth tân mewn perygl gan eu bod yn gweithio oddi ar ochr y briffordd ar brydiau heb bron ddim gwelededd oherwydd y mwg. O ganlyniad penderfynodd y Gwasanaeth Priffyrdd gasglu rhwystrau i'w llenwi â dŵr o'u depo a'u defnyddio i greu rhwystr cadarn, corfforol ac arwyddion wedi eu diffinio'n well hefyd. Gwnaeth hyn gryfhau cau'r ffordd – rhywbeth buasai'r Gwasanaeth Priffyrdd wedi gallu ei wneud yn gynt petai ganddo fynediad at arweiniad.

- 6.5.5 Yn y dyddiau wedi hynny, ac yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, defnyddiodd y Gwasanaethau Priffyrdd gyfuniad o'r rhwystr corfforol hwn neu reoli traffig drwy un lôn sengl - roedd yno yn bennaf i roi parth diogel i bersonél tân a oedd dal yn gorfod gweithio ar y ffordd.
- 6.5.6 Dros amser, roedd pwysau gan fusnesau yn y cyffiniau ac yn Llangollen ei hun y cynyddu i agor y ffordd, roedd yn anodd i'r Gwasanaeth Priffyrdd i gyfathrebu beth oedd yn digwydd drwy'r prosesau a ddefnyddiai fel rheol. Fel rheol byddai'r Gwasanaeth Priffyrdd yn cysylltu gyda thîm Gwaith y Stryd y Cyngor oedd â ffyrdd wedi'i hen sefydlu o rannu gwybodaeth am ffyrdd caeedig i'r rheiny oedd angen gwybod amdano. Roedd y diffyg gwybodaeth yn gwneud hyn yn anodd iawn os nad amhosib.
- 6.5.7 Yn y diwedd, o gwmpas 20^{fed} Awst datganwyd fod yr ardal yn ddiogel ac roedd y Gwasanaeth Priffyrdd yn gallu tynnu'r rhwystrau i gyd.
- 6.5.8 Wedi adolygu'r digwyddiad tân amlygodd y Gwasanaeth Priffyrdd nifer o faterion ac anawsterau daeth ar eu traws yn ystod cyfnod y digwyddiad. Roedd y Gwasanaeth Priffyrdd wedi arfer delio a rheoli digwyddiadau argyfwng yn ymwneud â'r priffyrdd. Yn y gorffennol, yn ystod digwyddiadau mawr, roedd ymateb y Gwasanaeth wedi bod ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru ac roedd yn ddieithriad wedi cynnwys cydgysylltu ar y safle rhwng y Gwasanaeth Priffyrdd a Heddlu Gogledd Cymru. Ar achlysuron eraill, fel amodau eira dros ardal eang byddai'r Gwasanaeth Priffyrdd yn cymryd rheolaeth ac yn dilyn gweithdrefn a chanllawiau wedi'i osod. Yn achos y tân profodd hyn bron yn amhosib i'w gyflawni.
- 6.5.9 Yn ystod dyddiau cyntaf o ddigwyddiad tân Mynydd Llantysilio chafwyd bron dim cyswllt uniongyrchol rhwng y swyddog arweiniol o'r Gwasanaeth Priffyrdd Swyddog Rheoli Digwyddiad y Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn achlysurol byddai'r Gwasanaeth Priffyrdd yn ffonio prif Ganolfan Rheoli Tân ac Achub a chael gwybod pwy oedd y Swyddog ar y safle chafwyd eu rhif ffôn cyswllt.
- 6.5.10 Oddeutu wythnos ar ôl cychwyn y tân sefydlwyd Safle Gorchymyn mewn cilfan a dechreuodd cyfarfodydd mwy ffurfiol gymryd lle a alluogodd cynllunio, cydlynu a chyfathrebu gwell, ond dan hynny roedd Gwasanaeth Priffyrdd yn profi cyfathrebu fel rhywbeth anghyswllt gan wneud hi'n anodd iddynt ymgysylltu'n iawn.
- 6.5.11 Nododd Gwasanaeth Priffyrdd sawl gwers a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn. Fel y nodwyd mae'r Gwasanaeth Priffyrdd wedi arfer delio â digwyddiadau'n yn ymwneud â'r briffordd yn aml, a'r angen i reoli traffig, ond roedd y digwyddiad hwn yn wahanol, yn bosib oherwydd ni sefydlwyd Grŵp Cydlynu Tactegol (GTT) ffurfiol a fyddai wedi cynorthwyo cyfathrebu a mewnwelediad.

6.5.12 Yn yr ôl-drafodaethau amlasiantaeth ar ôl y digwyddiad esboniodd y Gwasanaethau Priffyrdd pa adnoddau oedd ar gael iddynt ac roedd GTAGC wedi synnu o ddifrif gyda pha mor gyfyngedig oedd y rhain. Y rheswm am eu syndod oedd oherwydd iddynt weld beth oedd y Gwasanaeth Priffyrdd yn gallu ei wneud mewn amgylchiadau eraill fel llifogydd, felly roeddynt o dan yr argraff y gallai'r Gwasanaeth dynnu ar lawer o gymorth. Nid dyma oedd yr achos. Yn y gaeaf mae'r Gwasanaeth Priffyrdd yn barod am gyfnodau hir o dywydd garw ac mae system ar-alwad sylweddol gyda chefnogaeth wrth gefn ychwanegol yn cael ei roi yn ei le. Yn ystod misoedd yr haf nid yw hyn yn bodoli, ond petai ragolwg o dywydd garw fel stormydd mellt a tharanau a phosibilrwydd o lifogydd, buasai'r Gwasanaeth felly yn gwneud trefniadau fel bo'r angen. Fel arfer dim ond dau weithiwr tu allan i oriau sydd ar gael i gynorthwyo gyda digwyddiadau ar raddfa fach. Craidd hyn y gellir rhagweld y digwyddiadau hyn - roedd tân yn hollol wahanol.

6.5.13 Canlyniad positif o'r digwyddiad hwn oedd bod gwell dealltwriaeth nawr o allu cilyddol, ac o beth sy'n bosibl a ddim yn bosibl i'w gyflawni.

6.5.14 Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd yn ymwybodol yn gyson ei fod yn ddyletswydd arnynt i ailagor ffyrdd cyn gynted â phosib. Mae pwysau yn cynyddu ar y Gwasanaeth pan mae'r lonydd ar gau yn hirach na beth feddyliau'r cyhoedd sydd ei angen, beth bynnag fo'r rheswm tu ôl i gau'r ffordd. Mae'r angen i agor y ffordd neu esbonio pan ei fod dal ar gau yn cynyddu. Yn yr achos penodol hwn roedd angen cydbwysedd rhwng sicrhau diogelwch personél y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth geisio cadw'r traffig yn llifo - yn enwedig oherwydd yn yr ardal ddaearyddol hon roedd rhai o'r llwybrau amgen yn ormodol o hir i rai cerbydau. Ar brydiau roedd y ddyletswydd hon ar yr Awdurdod Priffyrdd i'w weld wedi ei fethu gan asiantaethau eraill, roedd rhwystredigaethau oherwydd nad oedd y Gwasanaeth yn gwybod ac felly ddim yn gallu cyfathrebu beth oedd yn digwydd neu beth yn rhagweladwy oedd am ddigwydd.

6.5.15 Nid oedd cyfathrebu bob tro mor glir ag y gallai fod, roedd angen ymdrin â'r agwedd yma ar gyfer unrhyw ddigwyddiad o'r math yn y dyfodol

6.6 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Sir Dinbych

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Ddinbych a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

6.6.1 Mae tair ardal benodol yn gysylltiedig â'r tân yn disgyn o fewn cyfrifoldeb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor, rhain yw ansawdd aer, cyflenwadau dŵr preifat a phrif gyflenwadau dŵr.

Ansawdd aer: Gorwedda cyfrifoldeb strategol am faterion llygru'r aer â CNC. Fodd bynnag, mae gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ddyfeisiau monitro sefydlog wedi eu lleoli ar draws Sir Ddinbych sy'n ymgymryd â monitro ansawdd yr aer yn rheolaidd. Mae nifer o'r dyfeisiau hyn wedi eu lleoli o gwmpas canol dref Llangollen. Ni wnaeth y dyfeisiau hyn gofnodi unrhyw newid yn ansawdd yr aer yn ystod y tân a ellir ei briodoli i'r tân ei hun. Nid oes

gan y Gwasanaeth ddyfeisiau monitro symudol, ond mae rhai gan CNC ac roedd ganddynt fynediad iddynt yn ystod cyfnod y tân. Ni dderbyniodd y Cyngor gwynion am ansawdd yr aer drwy gydol cyfnod y tân.

Cyflenwadau dŵr: cyfrifoldeb Dŵr Cymru Welsh Water yw'r cyflenwad dŵr cyhoeddus i'r ardal, a Chwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy mewn rhannau o'r ardal. Byddai'r cwmnïau hyn yn gyfrifol am ddarparu dŵr yfed etc. i unrhyw gartref a effeithiwyd. Ni chododd y ddau gwmni unrhyw bryderon gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor mewn perthynas â chyflenwadau yn ystod y cyfnod dan gwestiwn.

Cyflenwadau dŵr preifat: mae gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor gyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd ac argaeledd cyflenwadau dŵr preifat. Yn ystod cyfnod y tân ni dderbyniwyd unrhyw gyswllt na chwynion gan ddefnyddwyr cyflenwadau dŵr preifat yn ymwneud â materion halogiad. Derbyniwyd rhai ymholiadau mewn perthynas â phroblemau tywydd sych, ond dim yn ymwneud â'r tân. Yn ystod y cyfnod hwn cyfathrebodd Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata gyda thrigolion drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn gofyn i'r rheiny a oedd yn cael problemau gyda'u cyflenwad dŵr preifat i gysylltu gyda'r Cyngor am gymorth a chynghor ar sicrhau cyflenwadau amgen.

6.6.2 Roedd gan y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd llai o bryderon am faterion halogi mewn perthynas â'r tân na phetai'r tân yn un diwydiannol.

6.6.3 Ni flaenoriaethwyd na chynlluniwyd i samplu'r dŵr yn yr ardal yn sgil y tân ond gellir ei ystyried ar gyfer digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

6.7 Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata Cyngor Sir Ddinbych

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

6.7.1 Yn achos tân Llantysilio, roedd GTAGC yn cael ei ystyried yn 'Sefydliad Arweiniol', felly roedd Tîm Cyfathrebu Cyngor Sir Ddinbych yn cadw mewn cysylltiad agos a Thîm y Wasg Gwasanaeth Tân ac Achub drwy gydol y cyfnod, yn ogystal â gyda Heddlu Gogledd Cymru (HGC).

6.7.2 Roed prif weithgareddau cyfathrebu'r Cyngor drwy gydol y cyfnod i raddau helaeth wedi ei gyfyngu i rannu diweddariadau gan y gwasanaethau brys ynglŷn â'r angen i bobl gadw'n glir o ochr y mynydd, ynghyd â chyfathrebu manylion am gau ffyrdd fel yr oeddynt yn digwydd. Cysylltodd Tîm Cyfathrebu Sir Ddinbych fel yr arfer gyda Thîm Priffyrdd y Sir i gyhoeddi gwybodaeth am gau ffyrdd.

6.7.3 Yn ychwanegol roedd y tîm Cyfathrebu yn barod wrth gefn i ddelio gyda'r posibilrwydd o agor canolfan orffwys, ac roedd datganiad i'r wasg wedi ei baratoi ar gyfer hynny'n digwydd.

- 6.7.4 Yn ystod y prif gyfnod o weithgareddau cyhoeddodd y tîm hefyd nifer o ddiweddariadau i gynghorwyd sir, ynghyd â chynghorwyr a gynrychiolai Llangollen.
- 6.7.5 Wedi adolygu'r digwyddiad daeth Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata'r Cyngor i'r penderfyniad y gallai cyfathrebu fod wedi bod yn well, fel yr amlygwyd yn adroddiad ôl-drafodaeth fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru. O ran safbwynt y Cyngor roedd yn bwysig iddo gadw cysondeb, ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth a ddarlledai. Cydnabuwyd y gellir fod wedi gwneud defnydd mwy effeithiol o gynghorwyr lleol fel sianel gwybodaeth rhwng y Cyngor a'i sefydliadau partner, gyda thrigolion a busnesau, ac fel arall.
- 6.7.6 Roedd negeseuon yn cyfleu gwybodaeth swyddogol, ffeithiol yn brwydro am amlygrwydd yn erbyn math o 'glecs' a bostiwyd ar gyfryngau cymdeithasol.
- 6.7.7 Nid oedd gan y Cyngor dîm o staff ymroddedig yn ei le i gyfathrebu gyda'r cyhoedd neu i yrru negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol hyd y tân. Hwyluswyd cyfathrebu gan staff Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata fel rhan o'u trefn ddyddiol ar sail blaenoriaeth. Oherwydd y pwysau a achoswyd gan y digwyddiad a gorfod parhau a'u gwaith bob dydd, nid oedd gan un person amser i bori drwy safleoedd cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth anghywir neu gamliwio'r sefyllfa. Ymgwymerwyd â gwaith cyfathrebu tu allan i oriau gwaith gan y tîm Allan o Oriau ar sail ewyllys da.
- 6.7.8 Diweddarwyd gwefan y Cyngor gyda gwybodaeth am y digwyddiad yn rheolaidd etc. Roedd hwn i weld mewn baner ar hyd pen uchaf tudalen we flaen y Cyngor, gyda dolen er mwyn derbyn rhagor o wybodaeth.
- 6.7.9 Buasai Heddlu Gogledd Cymru wedi arwain mewn perthynas i unrhyw wacáu i ganolfan orffwys petai fod wedi angen hynny. Roedd y cyngor wedi gwneud darpariaeth i Gysgod y Gaer, Corwen fod ar gael fel canolfan wacáu petai angen. Gwnaed cynghorwyr sir yn ymwybodol o'r penderfyniad yma, ond ni chyhoeddwyd hyn yn eang gan nad oedd yr angen i wacáu wedi ei gadarnhau. Hysbyswyd cynghorwyr lleol am y sefyllfa ac o argaeledd y ganolfan petai angen, rhoddwyd gwybod iddynt hefyd pan oedd trefniadau yn cael ei gamu lawr.
- 6.7.10 'Celfyddyd yw cyfathrebu yn hytrach na gwyddoniaeth'. Mae cynghorwyr yn bwysig yn y math o sefyllfa a gyflwynwyd gan y tân gan eu bod mewn lle da i rannu gwybodaeth am y cymunedau maent yn byw ynddo. Un dull o wneud hyn fyddai i'r cynghorwyr gopïo'r ddolen ar dudalen we'r Cyngor i'r tudalennau cyfrif cyfryngau cymdeithasol maent yn ei ddefnyddio i gyfathrebu gyda'u trigolion.

6.8 Dŵr Cymru Welsh Water

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Dŵr Cymru Welsh Water a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.8.1 Yn ystod haf 2018 wynebodd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) gyfnod parhaus o dywydd poeth gydag ychydig iawn o law. I ymateb i hyn sefydlodd ymateb Aur ac Arian i ymateb i ddigwyddiad y tywydd a barhaodd o 27^{ain} Mehefin i 22^{ain} Awst. Roedd angen yr ymateb oherwydd sawl mater cyflenwad ar draws Gymru a Swydd Henffordd
- 6.8.2 Y ddau brif ardal o bryder i DCWW yng Ngogledd Cymru yn codi oherwydd y cyfnod sych oedd Gwaith Trin Dŵr Cwellyn yn Waunfawr, Caernarfon a Gwaith Trin Dŵr Glascoed, ger Bodelwyddan. Roedd y ddwy ardal yma angen cefnogaeth tancer gan Dîm Logisteg Cynllunio Argyfwng bedair awr ar hugain y dydd drwy'r cyfnod hwn i gynnal y cyflenwad i gwsmeriaid.
- 6.8.3 Ni chollodd cwsmeriaid eu cyflenwad yn ardal DCWW yn ystod y cyfnod hwn. Oherwydd yr angen am gefnogaeth na welwyd ei fath o'r blaen dros gyfnod mor hir o amser, cyflogodd DCWW sawl contractwr i gynorthwyo gyda'r logisteg.
- 6.8.4 O ganlyniad i' tywydd sych eithriadol roedd tanau yn torri allan ar draws Cymru. Roedd DCWW felly hefyd yn cefnogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) mewn nifer o leoliadau eraill gan gynnwys ardaloedd Bethesda a Phen Llŷn.
- 6.8.5 Mewn perthynas â'r tân ar Fynydd Llantysilio, yn y cychwyn gofynnwyd i'r cwmni am gefnogaeth gyda'r cyflenwad dŵr yn yr ardal ar 8^{fed} Awst 2018. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth gan Dîm Dosbarthu Gogledd Ddwyrain DCWW ym Mharc Cinmel Bodelwyddan gyda darpariaeth o bwynt llenwi tancer yn Llandegla. Yn gynnar iawn penderfynwyd bod y pwynt llenwi hwn yn aneffeithiol yn llenwi'r tendrau tân mewn amser addas. Felly darparodd WWDC gymorth gyda thair tancer gymalog dros gyfnod o bedair awr ar hugain gyda bob un yn dal 25,000 litr yr un. Defnyddiwyd y rhain i llenwi'r tendrau ar y safle gan alluogi amser llenwi cyflymach i GTAGC.
- 6.8.6 Roedd y tanceri wedi eu lleoli ar y safle yn Llandegla am oddeutu pedwar i bum diwrnod, a nos. Oherwydd cyfaint y dŵr yn cael ei ddal ar y safle yn y tanceri ni ddefnyddiwyd y dŵr i gyd felly gostyngodd WWDC y nifer o danceri i ddau bob dydd. Anfonwyd y tanceri cymalog am 6am gan ddechreio i ddepo WWDC am 10pm ac fe'i cyflenwyd gan gontractwyr y cwmni. Roedd y tanceri hyn yn dal 30,000 litr yr un.
- 6.8.7 Parhaodd y gefnogaeth tan nad oedd eu hangen bellach gan GTAGC ar neu o gwmpas 20^{fed} Awst 2018.
- 6.8.8 Cadarnhawyd gan WWDC y daethpwyd ar draws problem gyda'r hydrant a ddefnyddiwyd ar y cychwyn gan GTAGC. Gwnaeth y diffyg i'r mecanwaith sbarduno awtomatig i amau ei fod yn gollwng pan roedd yn cael ei ddefnyddio gan sbarduno'r falf datgysylltu i atal y cyflenwad dŵr rhag cael ei bwmpio yn Nhaf Newyddion. Fe'u rhybuddiwyd yng Nghaerdydd a gyrrwyd arolygydd i'r

ardal i ail setio'r pypiau, cymrodd hyn oddeutu 45 munud. Yn y cyfamser cyfarwyddodd DCWW i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ddefnyddio hydrant arall ger ymyl. Yn sgil y digwyddiad mae DCWW wedi tynnu'r hydrant i atal rhag i gartrefi tai Newyddion gollu dŵr eto ac wedi rhoi gwybod i GTAGC am leoliadau hydrantau eraill yn ardal. Roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i osod mecanwaith ailosod awtomatig yn yr Orsaf Bwmpio Dŵr erbyn 2020. Roedd y cwmni yn gweithio gyda GTAGC i ddatgomisiynu yr hydrant tân diffygiol a'i ddefnyddio fel 'hydrant golchi allan' yn unig. Nodwyd hydrant arall tua 20m i ffwrdd a'i ddynodi'n 'hydrant tân'.

- 6.8.9 Cysylltwyd â thrigolion lleol oedd wedi cael eu heffeithio â cholli pwysedd gyda'r telefon i'w hysbysu am y broblem, a gwnaed bob ymdrech i ail setio'r pypiau cyn gynted â phosib. Roedd colli pwysedd wrth i'r dŵr gael ei dynnu i ymladd y tân yn digwydd am ryw awr ar y pryd, ond roedd ansawdd y dŵr yn yr ardal yn foddhaol. I warchod lles y trigolion ac i sicrhau fod dŵr yfed digonol ar gael i bawb, prynodd DCWW 260 palet o ddŵr mwynol a oedd ar gael i'w ddsbarthu yn yr ardal. Yn ychwanegol comisiynodd y cwmni i danceri cymalog gludo dŵr i'r ardal.

6.9 Cwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Cwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor.

- 6.9.1 Ni fynychodd Cwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy Water y cyfarfod ymchwiliad gan mai ychydig a wnaeth gyda'r digwyddiad tân ar Fynydd Llantysilio, ond roedd y cwmni yn hapus i rannu profiadau gyda'r Pwyllgor o Severn Trent Water (mae ganddynt berthynas gwaith gyda nhw) o gynorthwyo ar Rostir Swydd Stafford. Nodwyd y pwyntiau dysgu canlynol o'u profiad yno, a theimlant y gall yr wybodaeth fod yn ddefnyddiol i'r ymchwiliad:

- Gan ei bod hi'n haf poeth a sych roedd galw eithriadol o uchel am ddŵr mewn rhannau sylweddol o'r rhwydwaith. Petai'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cymryd dŵr o'u lleoliadau arferol buasai wedi golygu y byddai cwsmeriaid wedi colli cyflenwad. Roedd felly'n well bob tro fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cysylltu gyda'r cwmni dŵr cyn tynnu dŵr o'r rhwydwaith.
- Yn Swydd Stafford roedd cysylltiad da yn bodoli rhwng y cwmni dŵr a'r Gwasanaeth Tân ac Achub ynglŷn â pha rannau o'r rhwydwaith dŵr wedi'i drin oedd â chyflenwad dibynadwy.
- Gwnaed trefniadau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i dynnu dŵr o ffynonellau dŵr crai'r cwmni yn hytrach na wedi'i drin, gan nad oedd hyn yn rhoi cyflenwad cwsmeriaid o dan risg
- Roedd y cwmni wedi gallu darparu'r Gwasanaeth Tân ac Achub gyda mynediad i'w cronfeydd dŵr, yn ogystal aeth y cwmni a dŵr i'w lleoliad er mwyn ei storio mewn pyllau a thanciau lleol
- Yn ogystal, oedd defnyddio dŵr crai yn golygu nad oedd yn rhaid i'r cwmni ddefnyddio tanciau dŵr symudol, gan eu cadw'n rhydd i'r cwmni dŵr ei ddefnyddio i gefnogi materion cyflenwad cwsmeriaid.

- Aeth rheolwyr y cwmni dŵr i'r safleoedd gorchymyn maes i gysylltu gyda chomander y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ystod y cyfnodau mwyaf sensitif yr ymateb.
- Roedd ymgysylltu cynnar yn allweddol i gynorthwyo'r cwmni dŵr i allu cynllunio.

6.10 Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.10.1 Ym marn Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant roedd diffyg yn ystod cyfnod cynnar y tân. Maent yn teimlo petai'r tân wedi cael ei reoli yn y cyfnod cynnar hwnnw ni fuasai'r ail dân wedi cael gafael. Rhoddodd aelodau'r Gymdeithas wybod na ymgwymerwyd â thanau dan reolaeth ar yr adeg benodol hon, nid oeddynt chwaith yn cael eu cynnal yn y nos. Roeddynt o'r farn petai GTAG wedi cymryd gofal digonol i sicrhau fod y tân cychwynnol wedi ei ddiffodd ni fuasai'r ail dân wedi cynnau.
- 6.10.2 Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar cododd Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant bryderon mai ychydig iawn o drafodaeth oedd wedi cymryd lle gyda'r porwyr, ar wahân i'r cyswllt cychwynnol er mwyn sefydlu pwyntiau mynediad i'r mynydd a hefyd cyfarwyddiadau i safle'r tân yn ystod yr achos gwreiddiol. Ym marn y porwyr roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn amharod i gynnwys y porwyr mewn unrhyw ffordd, er i'r porwyr fod â gwybodaeth ddefnyddiol o'r ardal, o bosib yn well na neb arall. Gwnaed y pwynt hwn gan berchnogion y tri hefyd, Ystâd Llantysilio. Yn ychwanegol, cafwyd ychydig neu ddim trafodaeth gyda'r porwyr oedd â stoc ar y mynydd yng nghyfnod y tân.
- 6.10.3 Cynigiodd porwyr lleol amrywiaeth o fathau o gymorth i'r Gwasanaeth Tân ac Achub h.y. cyflenwad dŵr lleol o dwll turio (yn annigonol yn y tymor hir o bosibl), cludo dŵr mewn tanciau amaethyddol, torri strimynnau atal tân gyda'u hoffer eu hunain etc. Adroddodd y porwyr bod bob cynnig o gymorth wedi'u gwrthod, ac anwybyddwyd cyngor a roddwyd ynglŷn ag anaddasrwydd rhai ardaloedd ar gyfer defnyddio cyfarpar bach. O ganlyniad roedd digwyddiadau o gerbydau Tân ac Achub yn troi drosodd.
- 6.10.4 Mewn perthynas â rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub, teimla'r porwyr bod diffyg cysondeb. Roedd newid shifftiau yn arwain at oruchwylwyr yn rhoi syniadau a pholisiau gwahanol ar waith, heb unrhyw un yn rheoli'r gwaith ar y llawr. Tybiwyd hefyd bod llawer a dim ond rhywfaint neu dim profiad o ddelio gyda digwyddiadau o'r math ac na chymerwyd gofal digonol i sicrhau fod yr achos cychwynnol, a ddaeth o dan reolaeth yn gyflym, wedi ei ddiffodd yn llwyr cyn gadael y safle. Barn y Porwyr oedd bod y tân wedi ail gynnau ac mai canlyniad hynny oedd y digwyddiad mawr wedyn.

6.11 Tirfeddianwyr

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn y Tirfeddianwyr a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.11.1 Dywedodd y tirfeddianwyr, Ystâd Llantysilio, yn eu barn nhw petai'r tân a ddechreuodd ar 19^{eg} Gorffennaf wedi cael ei "daro'n galed" o'r dechrau, ni fuasai wedi lledaenu. Teimlant fod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gadael y safle'n rhy gynnar, petaent wedi aros ar y safle tan oedd y tân wedi ei reoli yn iawn ni fyddai wedi cynnau'r malurion rhedyn a alluogodd iddo gydio yn sydyn o hynny ymlaen.
- 6.11.2 Yn eu barn nhw roedd yn ymddangos bod diffyg cyfathrebu rhwng y comanderiaid pan oeddynt yn newid drosodd ar y safle, gyda llawer ohonynt wedi dod o bell i ffwrdd. Deallodd yr Ystâd bod ffermwr lleol ar y safle am gyfnod sylweddol o amser yn dechrau'r tân ac yn gorfod dweud wrth bob comander sut a lle i gael mynediad i'r mynydd ac esbonio'r llwybrau ar gyfer y cludwyr dŵr etc. Roedd yr Ystâd o'r farn nad oedd cysondeb yng ngweithredu syniadau a thactegau i ymladd y tân, gyda phersonél gwahanol shifftiau yn defnyddio gwahanol dactegau, heb un person mewn rheolaeth o'r gwaith ar y llawr.
- 6.11.3 Roedd yr Ystâd yn cwestiynu'r penderfyniad i wrthod y cynigion o gymorth gan ffermwyr lleol a oedd wedi cynnig peiriannau 'topper' i dorri strimynnau atal tân. Yn eu barn nhw buasai torri strimynnau atal tân o flaen y tân wedi lliniaru'r colledion a ddigwyddodd. Roedd yr Ystâd yn amau efallai y gwrthodwyd cynigion o'r fath ar sail y buasant o bosib yn achosi dinistr i'r statws SDGA.
- 6.11.4 Roedd yn ymddangos i Bersonél yr Ystâd nad oedd gan lawer o'r diffoddwyr tân lawer o brofiad, neu dim o gwbl, o ddelio â thanau mynydd a grug. O ganlyniad, dylai hyfforddiant diffoddwyr tân gael ei ymestyn i gynnwys adnabod o'r gwahanol fathau o lystyfiant daear gan gynnwys rhedyn (nid oedd rhedyn gwyrdd yn dynodi ei fod yn wlyb) gan roddwyd cyfarwyddyd gan y gwasanaeth tân ac achub i beidio tampio'r ardaloedd o redyn gwyrdd ar y sail eu bod yn "wlyb". Teimla'r Ystâd fod hyn yn amlygu'n glir diffyg dealltwriaeth fod swm sylweddol o falurion rhedyn sych ar lefel y ddaear.
- 6.11.5 Teimla'r Ystâd y gwrthodwyd bob cynnig o gymorth ac anwybyddwyd cyngor a roddwyd ar anaddasrwydd rhai ardaloedd i ddefnyddio cyfarpar bach. Arweiniodd hyn at ddigwyddiadau o gerbydau'n troi drosodd. Felly dylai hyfforddiant Gwasanaeth Tân ac Achub ymestyn i sut i ddefnyddio cerbydau ar gyfer pob tir mewn amodau lle maent yn llwythog i osgoi iddynt droi drosodd fel y digwyddodd. Er mwyn cefnogi a hwyluso datblygu'r sgiliau hyn, byddai Ystâd Llantysilio yn cytuno i roi hawl i gael mynediad at y tir ar gyfer pwrpasau hyfforddi.

6.12 Cyngor Cymunedol Llantysilio

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Cyngor Cymuned Llantysilio a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.12.1 Cododd Cyngor Cymunedol Llantysilio bryderon am na wnaeth unrhyw sefydliad nag unigolyn gysylltu gyda chlerc y Cyngor Cymunedol drwy gydol y digwyddiad tân, er gwaetha'r effaith ar y gymuned leol. Roedd gan y Cyngor Cymunedol bryderon difrifol ynglŷn â chau'r ffordd yn ysbeidiol, a ddigwyddodd dros gyfnod o fis, a sut wnaeth effeithio busnesau lleol, yn enwedig busnesau a ymwnâi â thwristiaeth yn ystod un o dymhorau'r haf gorau ers sawl blwyddyn. Roedd y Cyngor Cymunedol yn gadarn o'r farn bod angen gwella cyfathrebu bob un o'r asiantaethau wrth ddelio gyda digwyddiadau o'r fath.
- 6.12.2 Yn rhinwedd ei swydd fel 'pwynt cyswllt' i bobl leol, byddai'r Cyngor Cymunedol yn fwy na bodlon i gynorthwyo gyda chyfathrebu negeseuon i drigolion a busnesau etc. petai digwyddiad tebyg yn digwydd yn y dyfodol. Roedd felly'n hanfodol fod y cyngor cymunedol lleol yn cael ei gynnwys fel partner/ rhanddeiliaid allweddol mewn unrhyw strategaeth gyfathrebu ar gyfer delio gyda digwyddiadau tebyg.
- 6.12.3 Roedd y Cyngor Cymunedol yn teimlo y dylai'r Cyngor Sir fod mewn sefyllfa gynorthwyo i gefnogi busnesau lleol pan mae digwyddiad hirfaith fel hyn yn digwydd yn y dyfodol.

6.13 Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru (GCARGC)

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru a fynegir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.13.1 Dechreuodd y Gwasanaeth Cynllunio at argyfwng ymwneud a'r digwyddiad tân 26^{ain} Gorffennaf 2018 pan gafodd e-bost gan swyddog Aur ar Ddyletswydd Cyngor Sir Dinbych yn gwneud cais am gefnogaeth weithredol drwy ddarparu cloddiwr mecanyddol. Ar y pwynt hwn nid oedd unrhyw weithredu penodol ei angen gan GCARGC. Am 8pm 27^{ain} Gorffennaf derbyniwyd hysbysiad gan Swyddog Cynllunio Argyfwng ar Ddyletswydd Heddlu Gogledd Cymru fod y tân yn dynesu tuag at eiddo. Drwy ei sefydliadau a oedd yn eu cynrychioli cydlynodd GCARGC wiriad diogelwch a lles ar drigolion, dechrau gwaith i baratoi cynlluniau gwacau a threfnu canolfan orffwys i drigolion a fuasai o bosibl angen eu gwacau ar fyr rybudd. Parhaodd GCARGC i gydlynu holl drefniadau gwacau posibl a threfniadau wrth gefn tan 1^{af} Awst tan ddywedodd GTAGC yn ystod galwad ffôn eu bod yn ystyried sefydlu Grŵp Cydlynu Tactegol (GCT) er mwyn rhoi diweddariad i'r holl bartneriaid. Ni sefydlwyd y grŵp hwn y swyddogol. Yn ystod y digwyddiad tân roedd llawer iawn o gysylltu â rhannu gwybodaeth rhwng GCARGC a GTAGC yn digwydd dros y teleffon.

- 6.13.2 Yn dilyn y digwyddiad yn dod i ben, cynhaliodd Cyngor Sir Dinbych gyfarfod ôl drafodaeth fewnol, a fynychwyd gan y Swyddog Cynllunio Argyfwng ar Ddyletswydd, i sicrhau fod unrhyw faterion a daethpwyd ar eu traws yn ystod yr ymateb yn cael eu hadnabod ac yn gallu cael eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddysgu sefydliadol. Digwyddodd hyn a 5^{ed} Medi 2018. Ymhlith y pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod ôl drafodaeth fewnol Sir Ddinbych oedd manteision datblygu a mabwysiadu cynllun tân coedwig/ rhostir a fuasai yn ei le ac ar gael i alw arno petai rywbeth tebyg yn digwydd yn y dyfodol. Yn ogystal, nodwyd hefyd buddion rhannu manylion y Cynllunio Argyfwng (Rota Aur) yn ehangach o fewn y sefydliad fel dull posibl i wella cyfathrebu a chydlynu ar gyfer digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.
- 6.13.3 Erbyn Hydref 2018, nid oedd trefniadau ar gyfer trafodaeth ôl ddigwyddiad gyda'r asiantaethau yn eu lle. Oherwydd y materion amlasiantaeth a godwyd yng nghyfarfod trafodaeth ôl ddigwyddiad Cyngor Sir Dinbych, rhoddodd GCARGC gais i Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru i drafodaeth ôl ddigwyddiad i'r holl asiantaethau gael ei gynnal. Gwnaeth y cais ar 10 Hydref a mynychodd swyddogion y Cyngor gyfarfod trafodaeth ôl ddigwyddiad amlasiantaeth ar 14 Tachwedd 2018.
- 6.13.4 Daeth GCARGC i'r casgliad fod ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r digwyddiad yn amserol, addas a chymesur. Dros nifer o ddyddiau bu nifer o staff o amryw adrannau yn cymryd rhan drwy gysylltu â phartneriaid proffesiynol i gefnogi eu ceisiadau i reoli'r digwyddiad tân a'i effaith ar yr ardal leol a'i thrigolion. Ymgwymerwyd â gweithgareddau ôl ddigwyddiad addas mewn ffurf cyfarfod trafodaeth ôl ddigwyddiad a chyfrannu i drafodaeth ôl ddigwyddiad amlasiantaeth y Fforwm Gwydnwch Lleol.
- 6.13.5 Daeth Gwasanaeth Cynllunio argyfwng Rhanbarthol hefyd i'r canlyniad fod yr holl asiantaethau wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd ac wedi bod yn rhagweithiol yn ei dull wrth ymateb i'r sefyllfa. Gan na ddynodwyd y digwyddiad yn Ddigwyddiad Mawr yn swyddogol ni roddwyd gweithdrefnau cydlynu tactegol yn eu lle. Er i swyddogion cyfathrebu gysylltu'n dda gyda'i gilydd, wrth edrych yn ôl ac oherwydd natur hirfaith y digwyddiad, buasai cyfathrebu wedi cael budd petai Grŵp Cydlynu Tactegol wedi cael ei sefydlu.
- 6.13.6 Roedd GCARGC o'r farn y buasai cael 'templod' cynllun gweithredu ar gyfer delio â'r math yma o ddigwyddiad yn y dyfodol yn werthfawr. Roedd Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru (FGLGC) yn fodlon ystyried a datblygu'r awgrymiad. I hwyluso hyn roedd Grŵp Amgylchedd y Fforwm Gwydnwch Lleol wedi cynnwys cam gweithredu i gwblhau datblygiad Cynllun Tân Gwyllt yn eu cynllun busnes erbyn Ebrill 2020. Buasai GCARGC yn cynorthwyo gyda datblygiad y Cynllun ar ran yr holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru.

6.14 Y cyhoedd/ trigolion

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn unigolion a geir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

- 6.14.1 Yn y cyfarfod yn Llangollen ar 20^{fed} Mawrth 2019 rhannodd trigolion lleol eu profiadau a'u pryderon ynglŷn â'r tân. Yn ychwanegol i'r pwyntiau a godwyd

yn barod gan amryw o'r asiantaethau a sefydliadau cododd y trigolion lleol y pryderon canlynol:

- ar achlysuron, oherwydd dwysedd y mwg yn dod oddi ar y mynydd roedd gwelededd i lawr i 0.5km i 1km. Roedd anadlu'r mwg yn gyson yn beryglus iawn i'r rheiny oedd gydag iechyd da heb sôn am rhai ac iechyd gwael, ond ni wnaeth unrhyw gorff neu sefydliadau yn ymwneud ag iechyd gysylltu i edrych sut oedd eu lles.
- dylid rhoi ystyriaeth i osod monitrai ansawdd aer dros dro i sicrhau nad oes risg i iechyd y cyhoedd yn ystod digwyddiadau o'r fath
- roedd cyfathrebu am ddatblygiad y sefyllfa'n sâl, ddim yn bodoli hyd yn oed, drwy gydol y digwyddiad
- er bod canllawiau CNC eu hunain yn nodi nad oedd angen caniatâd mewn sefyllfa argyfwng fel llifogydd, storm etc. I dyllu ffosydd, torri strimynnau atal tân etc. dywedodd un unigolyn na roddwyd caniatâd iddo dorri strimynnau atal tân gan y Gwasanaeth Tân ac achub, er gwaethaf iddo gael cyswllt personol gyda thri chomander tân.
- dylid llunio rhestr o gontractwyr lleol i gynorthwyo gyda thorri strimynnau atal tân etc. (yn debyg i restr cynnal a chadw yn y gaeaf) a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Yn ystod argyfyngau gellir galw ar y contractwyr hyn ar fyr rybudd

6.15 Gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd yn dilyn y cyfarfod

Sylwer os gwelwch yn dda mai barn yr unigolion a geir isod, nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor

6.15.1 Nododd staff Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Sir Dinbych (AHNE) a ymatebodd i'r tân nad oedd ganddynt adnoddau addas ar gael iddynt ar hyn o bryd i ymgymryd â rolau tebyg yn amlach, er enghraifft o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Maent wedi adnabod y meysydd canlynol fel rhai a fuasai'n elwa o ragor o fuddsoddiad er mwyn paratoi staff AHNE i ymateb i ddigwyddiadau o'r math yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd roeddynt tu hwnt i gyllideb y Gwasanaeth:

- Hyfforddiant ar y cyd
- Ymarferion ar y cyd
- Cyfarpar Diogelu Personol Arbenigol i Ymladd Tân (PPE)
- Cyfarpar ymladd tân a chludiant

6.15.2 Telathrebu: er na effeithiwyd mastiau telathrebu/Teledu/Radio gan y tân penodol hwn dylid rhoi ystyriaeth wrth ddatblygu cynlluniau tân gwyllt i'r posibilrwydd o gollu unrhyw fastiau a chysylltiadau technoleg a'u heffaith ar unwaith i ymatebion y gwasanaethau brys i ddigwyddiadau, busnesau lleol, twristiaeth a diwydiannau eraill ac o bosibl diogelwch lleol a gwladol.

6.16 Gwahanol farnau

Dau dân ar wahân

6.16.1 Roedd gwahanol farnau ynglŷn ag oedd y tanau ar 18^{fed} a 19^{eg} o Orffennaf yr un tân, neu'n ddau dân gwahanol.

6.16.2 Mae cynghorydd dros ardal Llangollen ac aelod o'r pwyllgor Craffu yn dadlau â chanlyniad y Gwasanaeth Tân ac Achub fod y tân ar 18^{fed} a 19^{eg} Gorffennaf yn ddau ddigwyddiad ar wahân, gan ddweud:

“...roeddwn i yno pan wnaeth y tân ail gynnu toc ar ôl 2pm ar 19^{eg} Gorffennaf. Roeddwn yn sefyll drws nesaf i'r [aelod lleol o'r cyhoedd]² pan ffoniodd ef/hi am [gymorth]

Cyrhaeddais ar y safle toc cyn 2pm fel yr oeddwn yn dychwelyd o fod yn arsylwi Pwyllgor Craffu Perfformio. Safais yn sgwrsio â ffermwr lleol a chyn giper am y tân a digwyddiadau eraill dros y blynyddoedd. Roedd y ciper yn mynd o amgylch ymylon y tân yn ceisio diffodd y lle oedd newydd ail gynnu mewn llyfdd bach iawn. Toc ar ôl 2pm gwnaeth y tân ailgynnu mewn ffordd ddifrifol yn y man uchaf, gan ailgynnu ardal fawr wedi ei orchuddio ag eithin yn sydyn. O fewn rhyw 5 munud daeth yn amlwg bod y tân angen cefnogaeth broffesiynol y frigâd dân a gwnaed galwad gan y [aelod o'r cyhoedd]³.

Mae'r frigâd dân yn dweud fod y tân a riportwyd ar 19^{eg} Gorffennaf am 2.20pm yn dân gwahanol. Nid yw hyn yn wir gan fy mod yno gyda dau o drigolion lleol arall. Roedd yr un tân a wnaeth gynnu'r eithin ar ymyl uchaf o'r tân gwreiddiol. Llosgodd y tân yn ffyrnig gyda fflamau mawr iawn yn ymddangos mewn dau neu dri munud.

Mae hwn yn rhan hanfodol o'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r ffaith yr ystyriwyd fod y tân wedi'i ddiffodd a'r frigâd dân wedi cael ei dychwelyd i'r ganolfan pan wnaeth y tan ailgynnu. Ar ddiwrnod y cyfarfod yn Llangollen dywedodd nifer o bobl iddynt feddwl y gellir fod wedi gwneud mwy yng nghamau cychwynol y tân a bod y frigâd dân wedi dychwelyd i'r ganolfan yn rhy sydyn.”

6.16.3 Wedi hynny ymatebodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r farn uchod drwy ailddatgan ei safbwynt mewn ysgrifen na wnaeth y tân ailgynnu gan na ddatganwyd ei fod wedi ei ddiffodd, hwn oedd y tân a gychwynodd ar 19^{eg} Gorffennaf. Ystyriwyd y tân ar Orffennaf 18^{fed} fel tân arall gan GTAGC. Dywedodd GTAGC hefyd:

“Yn groes i beth a honnwyd yn y cyfarfod, sicrhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod cyfarpar tân a swyddogion ar y safle yn barhaol o 19^{eg} Gorffennaf i 13^{eg} Medi 2018.

Yn ystod oriau o dywyllwch, lle buasai ymladd y tân ar ochr y mynydd wedi bod yn annerbyniol o beryglus i'r diffoddwyr tân, parhaodd y criwiau i gadw golwg dros yr ardal am arwyddion o fflerio neu'r tân yn lledaenu.”

² Cyfeiria Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r aelod hwn/hon o'r cyhoedd fel “person cyswllt lleol”

³ Hwn/hon oedd yr un aelod o'r cyhoedd a gyfeirir ato/ati yn nhroednodyn 3- “person lleol”

7. Beth weithiodd yn dda?

7.1 Yn dilyn ei gyfarfod trafodaeth ôl ddigwyddiad, daeth Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru (FGLGC) i'r canlyniad fod:

- y cydweithredu rhwng yr holl asiantaethau wedi bod yn llwyddiannus, gyda thri sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd dros gyfnod hirfaith. Dywedodd y sefydliadau hefyd fod perthynas dda a lefel o gydymddiriedaeth yn bodoli rhwng yr ymatebwyr Categori 1 i gyd (y prif asiantaethau)
- y diweddariadau fel arfer yn gynhwysfawr, yn ddefnyddiol ac yn cynorthwyo ymateb yr awdurdod lleol unwaith roedd yr asiantaethau mewn cysylltiad â'r Comander Digwyddiad a staff eraill
- tîm lles a dyngarol Cyngor Sir Dinbych wedi ymateb yn sydyn i sefydlu canolfan orffwys a chael staff wrth gefn petai eu hangen
- cyfarfodydd rheolaidd lefel gweithredol Athrawiaeth Rhyngweithredadwyedd y Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESIP) rhwng partneriaid allweddol wedi llwyddo i gael cytundeb ar weithrediadau ac ymwybyddiaeth a rennir o'r sefyllfa sy'n datblygu
- defnyddio drôn Heddlu Gogledd Cymru i gasglu gwybodaeth a dealltwriaeth o faint y digwyddiad a chynnydd y gweithgareddau wedi bod yn amhrisiadwy
- y ddarpariaeth o gyflenwad dŵr mewn tanceri dŵr gan y cwmnïau cyfleustodau dŵr mewn ymateb i'r system awtomatig yn gweithredu a thorri'r cysylltiad yn llwyddiannus, a darparodd ddigonedd o ddŵr i safle'r digwyddiad yn ystod y toriad yn y cysylltiad.
- diffoddwyr tân wedi gweithio'n ddiflino mewn tirwedd ac amodau anodd iawn am gyfnod hirfaith o amser. Roedd effaith sylweddol ar GTAGC a'i staff, cymysgedd o bersonél amser llawn a rhai wrth gefn, a gwnaeth eu gorau i reoli a diffodd y tân mewn amodau heriol a blinedig iawn
- cyfathrebu da rhwng GTAGC a Gwasanaeth Priffyrdd Cyngor Sir Dinbych i agor y ffyrdd pan roedd yn bosibl i gynorthwyo gyda rheoli traffig, gyda'r Heddlu yn darparu personél i gynorthwyo.

8. Rhanddeiliaid: Gwersi a Ddysgwyd ac Awgrymiadau i Wella

8.1 Mae bob sefydliad, asiantaeth, unigolion neu barti a effeithiwyd wedi adnabod eu pwyntiau dysgu **eu hunain** o ganlyniad i'r digwyddiad tân a'i ganlyniadau (*mae'r farn a restrir yn yr adran hon yn rhai'r unigolion a'r cyrff a restrir ac nid ydynt o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor*):

8.1.1 Rheolaeth Tir:

O ran ymarferion rheolaeth tir mae'r agweddau canlynol wedi cael eu hadnabod fel gwersi wedi'u dysgu neu'n ardaloedd ar gyfer gwella gan yr amrywiol asiantaethau a'r rheiny a effeithiwyd gan y tân:

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)

- Roedd y diffyg rheolaeth tir cadarn yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu fod y strimynnau atal tân ar y mynydd yn gyfyngedig ac yn cynyddu'r swm o ddeunydd llosgadwy ar gael yn danwydd i'r tân. Buasai rheolaeth effeithiol a chadarn o ardaloedd yr ucheldir yn allweddol i leihau'r risgiau yn gysylltiedig â thanau gwyllt

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):

- buasai rheolaeth y mynydd yn y dyfodol yn elwa o CNC a'i bartneriaid (yn cynnwys Cyngor Cymunedol Llantysilio) yn edrych ar ystod o dechnegau rheoli h.y. llosgi, torri, *roboflail* etc.
- efallai fod diffyg argaeledd taliadau am reoli eithin wedi cymhlethu'r broblem tân oherwydd cynyddu'r swm o lystyfiant ar gael yn danwydd i'r tân. Roedd nawr yn gydnabyddedig y dylid edrych ar hyn fel rhan o becyn rheolaeth ar gyfer y safle. Yn ogystal byddai monitro unrhyw waith a gytunwyd arno yn bwysig h.y. tripiâu maes i gytuno ar waith, canfod oed y grug, etc. Gellir monitro ardaloedd mawr o ucheldir drwy ddefnyddio ffotograffiaeth o'r awyr. Felly, yn y byr dymor, byddai'n fuddiol i adnewyddu cytundebau rheoli tir cyfredol rhwng CNC ac Ystâd Llantysilio ac adolygu'r lefelau taliad ar gyfer ymgymryd â gwaith ar y mynydd
- yn y tymor hirach gobeithia CNC gael Cytundebau Rheoli yn eu lle gyda'r 4 prif dirfeddianwyr y tir o fewn SDGA a hefyd unrhyw dirfeddianwyr eraill a ddymunai ymgymryd â rheolaeth bositif o'u tir. Drwy'r cytundebau hyn gobeithia CNC weithio gyda'r tîrffeddianwyr a phorwyr tir comin i reoli'r rhostir yn weithgar ar y mynydd drwy dorri a llosgi dan reolaeth
- angen i gysylltu ar frys ag arbenigwyr sydd â phrofiad blaenorol o adfer rhostir yr ucheldir wedi ei ddinistrio gan dân
- gan edrych ymlaen at y newidiadau i gymorthdaliadau amaethyddol yng Nghymru ac effeithiau BREXIT, bydd y ddau yn cael effaith sylweddol ar y diwydiant amaeth ac ar ymarferion rheoli tir mewn ardaloedd ucheldir - roedd Llywodraeth Cymru (LIC) ar hyn o bryd yn cynnig newid i system daliadau ar gyfer nwyddau cyhoeddus yn hytrach na chynhyrchu amaethyddol. Buasai felly'n hanfodol bwysig i CNC gydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau a fuasai'n cefnogi gweledigaeth LIC wrth warchod ardaloedd ucheldir, eu cynefin a bywoliaeth y rheiny oedd yn ddibynnol arnynt am eu bywoliaeth.

Gwasanaethau Cefn Gwlad Cynqor Sir

- yr angen am waith rheoli tir rheolaidd ac effeithiol mewn ardaloedd rhostir i liniaru risg o danau gwyllt yn lledaenu
- y manteision o gael adnodd ymroddedig, fel swydd Swyddog Maes Rhostir gynt, i weithio gyda thirfeddianwyr a phorwyr i gael yr hawliau sydd eu hangen i ymgymryd â gwaith rheoli tir a'u cefnogi gyda datblygu'r cynlluniau cysylltiedig i'w galluogi i gael gafael ar daliadau sydd ar gael am ymgymryd â'r gwaith
- yr angen i ddod o hyd i ateb ynglŷn â sut i ddelio ag eithin a phrysg ar lethrau serth lle nad oed yn bosibl i gael mynediad gyda tractor a lle'r oedd y llethrau'n rhy serth i losgi'n ddiogel

Tirfeddianwyr

- roedd rheoli tir yn gadarn ac effeithiol yn allweddol i leihau'r risg ac effaith y mathau yma o dân ar y mynydd yn y dyfodol. Er nad oedd gan y tirfeddianwyr yr adnoddau oedd ei angen i ymgymryd â'r gwaith rheoli cynefin oedd yn ofynnol roeddynt yn awyddus i ymrwymo â chytundebau rheoli gyda CNC i alluogi i'r porwyr i gael gafael ar y cyllid ar gael. Yn ychwanegol byddai'r Ystâd yn ymgymryd â rhywfaint o waith rheoli ei hun, ac yn fodlon gweithio gyda'r awdurdodau mewn perthynas â rheolaeth yn y dyfodol.
- roedd y llystyfiant ar yr ardal gyferbyn a Chaffi Ponderosa wedi cael ei annatureiddio drwy ddefnydd trwm gan gerbydau a pharcio a buasai rhywfaint o reolaeth neu gyfyngiad ar hyn yn fanteisiol i reolaeth y mynydd

Cymdeithas Porwyr Bwlch y Oernant:

- angen i CNC weithio'n agosach gyda'r tirfeddianwyr a'r porwyr mewn perthynas â rheoli'r mynydd. Roedd y ffermwyr wedi rhybuddio CNC am y peryglon posibl o'u rheolaeth o'r mynydd, ond anwybyddwyd y cynqor hwn
- roedd polisïau amaethyddol cyfredol yn cyfrannu tuag at ddirywiad mewn rheolaeth o ardaloedd rostiroedd yr ucheldir. Roedd llai o borwyr a llai o weithwyr i ymgymryd â'r gwaith arferol o reoli cynefin wedi arwain at rostir yr ucheldir i fod yn anoddach i fynd atynt i bori ac ymgymryd â gwaith cyffredinol hwsmonaeth. Roedd hyn ynghyd â chwymp yn y galw am oen Mynydd Cymreig a gynhyrchir yn y math yma o ardaloedd yn golygu fod llai o ysgogiad i gadw diadellau ar y mynydd, gan nad oedd yn economaidd hyfyw i wneud hynny.
- dylid ail gyflwyno torri neu losgi strimynnau atal tân a dylid ehangu maint yr ymylon ar ochr y ffyrdd, iddynt fod digon llydan i atal unrhyw danau a achosir gan yrwyr yn mynd heibio.
- mae statws SDGA y mynydd a'r trefniadau llywodraethu tybiedig sy'n gysylltiedig â fo yn cymhlethu'r broblem o ddefnyddio ymarferion rheoli. Dylid hefyd symleiddio'r broses o geisio am daliadau rheoli tir er mwyn cynorthwyo gwell ymgysylltiad gyda'r broses. Er mwyn i ffermwyr/ porwyr deimlo'n hyderus i geisio am y taliadau ac ymgymryd â'r gwaith roedd angen adeiladu

lefel o gydymddiriedaeth a hyder rhyngddynt â CNC. Ar hyn o bryd roeddynt yn ofnus o'r ôl-ffeithiau o beidio gallu cydymffurfio â rheolau llym CNC yn ddamweiniol neu oherwydd tywydd anffafriol.

- dylai'r partïon sydd â diddordeb mewn rheoli hwn ac ardaloedd eraill, h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Clwyd, y tîrfeddianwyr a'r porwyr weithio gyda'i gilydd i lunio a chytuno a'r polisi cydweithredol i sicrhau hyfywedd yr ardal yn y dyfodol
- gydag arwyddion ar y pryd yn dangos y buasai polisi amaethyddol y dyfodol wedi'i anelu at dalu ffermwyr am gyflawni nwyddau cyhoeddus,
- Gydag arwyddion ar y pryd fod polisi amaethyddol y dyfodol yn anelu tuag at talu ffermwyr am gyflawni nwyddau cyhoeddus, roedd angen brys am rywun i arwain i yrru prosiectau yn eu blaen a'u cyflawni. Yn ddelfrydol dylid penodi un unigolyn i ddatblygu cynllun cydlynol a chai ei gymeradwyo gan yr holl bartïon â diddordeb. Wedi hynny gallai'r swyddog fod yn gyfrifol am gydlynu cyflawni'r cynllun
- er mwyn gwella lefel rheoli cynefin a chynorthwyo i leihau'r posibilrwydd o danau yn cynnau yn y dyfodol, ac i arwain tuag at reolaeth fwy effeithiol mae angen gwell cydlyniant rhwng y partïon, ymwybyddiaeth o anghenion y naill a'r llall ac ymrwymiad tuag at weithio tuag at nod cyffredin. Roedd angen newid agwedd gan ffermwyr, tîrfeddianwyr, porwyr ac asiantaethau yn yr un modd.

8.2 Mae bob un o'r ymatebwyr Categori 1 wedi adnabod pwyntiau dysgu **eu hunain** o ganlyniad i ymateb a rheoli'r digwyddiad tân (*mae'r farn a restrir yn yr adran hon yn rhai'r cyrff unigol a restrir ac nid o reidrwydd yn rhai'r Pwyllgor*):

8.2.1 **Digwyddiad tân a'r ymateb iddo:**

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC):

Yn dilyn adolygiad o'r digwyddiadau tân gwyllt a fynychodd GTGC yn haf 2018 nododd chwe phrif faes ar gyfer dysgu mewnol a gwella. Rhain oedd:

- gorchymyn a rheoli digwyddiad a'r angen am ddull cyson o weithio ar draws bob lefel o orchymyn
- cefnogi gorchymyn a'r angen i systemau gael eu safoni er mwyn roi gwell cefnogaeth i'r Comander Digwyddiad gwneud penderfyniadau
- adnoddau, cerbydau yn benodol, a'r angen i adolygu eu gallu/ capasiti i gefnogi i sicrhau datrysiad effeithiol i danau gwyllt
- yr angen i ddarparu cyfleusterau lles addas a digonol i staff yn ystod digwyddiadau hirfaith
- y manteision o gydweithio a'r defnydd o Athrawiaeth Rhyngweithredadwyedd Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESIP);
- manteision o reolaeth ragweithiol argaeledd staff a sut effeithiodd hyn ar yr ymateb gweithredol a datrysiad tanau gwyllt, staff, eu teuluoedd; ac; yn achos staff wrth gefn, eu cyflogwyr; a
- roedd mynnu diogelwch er gwaethaf y gwrthwynebiad gan unigolion amrywiol neu grwpiau wedi cyfrannu at ddim anafiadau difrifol neu golli bywyd yn ystod tân mawr, hirfaith

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):

- yr angen i adolygu Mynegai Difrifoldeb Tân (FSI) ar Dir Mynediad (roedd CNC yn cymryd rhan mewn adolygiad traws UD o'r Mynegai Difrifoldeb Tân yn barod)
- fel ymatebwr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 (CCA) gallent fod wedi galw am sefydlu Grŵp Gorchymyn Tactegol (Arian) i gynorthwyo cydlynu a rhannu gwybodaeth gyda phorwyr tir comin, trigolion lleol a'r cyhoedd
- byddai cynnal sesiynau ymglyfarwyddo rhwng GTAGC, CNC a llywodraethau lleol o bryd i'w gilydd yn ddefnyddiol er mwyn gwella dealltwriaeth o'r cyfarpar ac arbenigedd i'w cael mewn sefydliadau partner
- pwysigrwydd gweithio'n agos gyda GTAGC ac awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau tân ar gyfer safleoedd risg uchel

Cyngor Sir Dinbych:

Gwasanaeth Cefn Gwlad:

- yr angen i ddynodi digwyddiadau tebyg yn 'ddigwyddiadau mawr/argyfwng' o dan ddarpariaethau Argyfyngau Sifil Posibl 2004, er mwyn galw ar Sefydlu Grŵp Gorchymyn Tactegol i ffurfioli sianeli cyfathrebu uniongyrchol rhwng ymatebwyr Categori 1 er mwyn cefnogi rhannu gwybodaeth yn sydyn ac effeithiol rhwng pawb sy'n cymryd rhan ac i gadw cysondeb yn ystod newid shifft.
- yr angen am well rhannu gwybodaeth rhwng ymatebwyr Categori 1 ar y math o gyfarpar, wybodaeth, profiad a lefel yr adnoddau sydd ganddynt i ymateb a rheoli digwyddiadau tebyg

Gwasanaeth Priffyrdd:

- yr angen i sefydlu Grŵp Cydlynu Tactegol er mwyn cynorthwyo cyfathrebu a mewnwelediad
- dylai bob asiantaeth rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth ar allu'r naill a'r llall i ymateb i ddigwyddiadau o'r math
- dylai pob asiantaeth godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau'r naill a'r llall mewn perthynas i'r math yma o ddigwyddiad a disgwyliad y cyhoedd arnynt i 'ailddechrau gwasanaeth arferol' (efallai buasai strategaeth cyfathrebu effeithiol yn cynorthwyo gyda'r pwynt olaf).

Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd:

- dylid rhoi ystyriaeth i ymgymryd â samplu ansawdd dŵr yfed yn rheolaidd yn ystod digwyddiadau o'r math i sicrhau nad oes risg i iechyd pobl

Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata:

- gallai cyfathrebu fod wedi bod yn well. O safbwynt y Cyngor roedd yn bwysig iddo gynnal cysondeb, ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a drosglwydda. Buasai sefydlu Grŵp Cydlynu Tactegol wedi sicrhau sianelu cyfathrebu agored rhwng yr asiantaethau a hwyluso rhannu gwybodaeth ar y cyd rhwng ymatebwyr y digwyddiad y cyhoedd a'r bartïon a effeithiwyd

Heddlu Gogledd Cymru:

- yr angen i sefydlu Grŵp Cydlynu Tactegol i gefnogi cyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth reolaidd wedi'i dargedu i sicrhau fod yr holl asiantaethau wedi ei hysbysu'n iawn
- yr angen i gael strategaeth y cyfryngau rhagweithiol er mwyn rhoi gwybodaeth i drigolion etc. ar ddatblygiadau a lleihau'r risg o'r wybodaeth anghywir gael ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol

Ardaloedd eraill o ddysgu a adnabuwyd gan bartïon eraill a effeithiwyd gan y tân

Cymdeithas Pori Bwlch yr Oernant

- yr angen i gyfathrebu gwell a pharhaus gyda'r porwyr a'r tiffeddianwyr mewn perthynas â'r digwyddiad tân a diogelwch stoc etc.
- y defnydd o wybodaeth o'r ardal a'r dirwedd sydd gan y porwyr, tiffeddianwyr a thrigolion lleol i liniaru'r risg o ddamweiniau personol neu gerbydau ddigwydd
- dylai personél Gwasanaeth Tân ac Achub gael eu darparu'n rheolaidd â hyfforddiant ymarferol ynglŷn â delio â thanau gwyllt a sut i ymdopi â thirwedd anodd ar droed ac mewn cerbydau pob tirwedd wedi eu llwytho'n addas.

Tiffeddianwyr

- gwell cyfathrebu rhwng personél Gwasanaeth Tân ac Achub wrth newid shifftiau ynghyd â dull cyson o daclo'r tân
- buasai gwell defnydd o gyngor a gwybodaeth pobl leol, porwyr, ffermwyr a thiffeddianwyr mewn perthynas â'r ardal leol a thirwedd wedi osgoi damweiniau dianghenraid rhag digwydd
- darpariaeth rhagor o hyfforddiant i bersonél y Gwasanaeth Tân ac Achub i wella eu gwybodaeth o natur tanau gwyllt a'u anrhagweladwyedd
- roedd Ystâd Llantysilio yn fodlon caniatáu'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gael mynediad i'r mynydd at bwrpasau hyfforddiant a datblygu personél i ennill y sgiliau angenrheidiol i ymdopi â thirwedd anodd i ddelio gyda thanau gwyllt

Cyngor Cymunedol Llantysilio

- angen cyfathrebu gwell gan yr hol asiantaethau gyda'r bobl leol a busnesau i'w hysbysu ynglŷn â beth oedd yn digwydd – gellir defnyddio'r cyngor cymunedol at bwrpas hysbysu pobl leol
- dylai rhagor o gymorth fod ar gael i fusnesau lleol gan y Cyngor Sir pan mae digwyddiad hirfaith fel hyn yn digwydd

Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru (GCARGC)

- gwell cyfathrebu gan yr holl asiantaethau drwy ddarparu negeseuon rheolaidd a chyson. Buasai sefydlu Grŵp Cydlynu Tactegol ar y cyfle cyntaf posib yn cefnogi hyn ynghyd â dynodi'r digwyddiad yn 'Ddigwyddiad Argyfwng' er mwyn cychwyn gweithdrefnau Cynllunio Argyfwng yn ffurfiol
- cyn gynted â phosib ar ôl diwedd y digwyddiad dylid cynnal cyfarfod trafodaeth ôl ddigwyddiad amlasiantaeth gyda'r pwrpas o rannu profiadau ac adnabod unrhyw wersi a ddysgwyd ohono
- dylai gwybodaeth ar y Cynllunio Argyfwng (Rota Aur) gael ei rannu'n ehangach ymhlith ymatebwyr Categori 1
- datblygu templed Cynllun Tân Coedwig a Rhostir i'w ddefnyddio gan yr holl asiantaethau wrth ymateb i ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol

9. Crynodeb a Chasgliadau'r Pwyllgor Craffu

9.1 Rheolaeth tir

- 9.1.1 Wedi adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad bod diffyg rheolaeth tir cadarn ar Fynydd Llantysilio wedi cyfrannu tuag hyd y digwyddiad tân a'i effeithiau dinistriol.
- 9.1.2 Nododd y Gwasanaeth Tân ac Achub fod diffyg rheolaeth gadarn yn y blynyddoedd diweddar a natur y dirwedd wedi'i gwneud yn anodd ar brydiau i ddelio gyda'r tân.
- 9.1.3 Mae'r Pwyllgor yn cytuno gyda barn y Gymdeithas Porwyr nad yw Mynydd Llantysilio ar ben ei hun mewn perthynas â statws cynefin ar hyn o bryd a diffyg rheolaeth tir cyffredinol. Mae'r sefyllfa yn cael ei ailadrodd mewn nifer o ardaloedd o ucheldir ar draws Cymru oherwydd polisiau amaethyddol ac amgylcheddol y llywodraeth ganolog, ynghyd â ffactorau economaidd a'r gostyngiad yn nifer da byw yn y blynyddoedd diweddar. Yn ychwanegol, mae'r nifer o borwyr yn gostwng, ac yn arwain at ostyngiad yn y gweithlu sydd ar gael ar gyfer rheoli arferol cynefin. Pan nad yw cynefin yn cael ei gynnal, mae mynediad i bori yn gyfyngedig a'r hwsmonaeth gyffredinol, casglu etc. yn mynd yn anoddach. Fe'i cydnabyddir yn eang gan borwyr, ffermwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru fod pori defaid, ynghyd â llosgi dan reolaeth a thorri yn elfennau hanfodol o gynnal rhostir iach, hydrin a chynhyrchiol.
- 9.1.4 Mewn perthynas â Mynydd Llantysilio un pryder sydd o bwys nawr yw dyfodol 'diadellau cynefin' oherwydd y ffaith mai ychydig iawn o ddeunydd pori fydd ar gael iddynt fwydo arno ar y mynydd yn dilyn y tân. Os na chant eu troi allan ar y mynydd maent yn colli eu gallu cynefino a fyddai yn ei dro'n arwain at gollu diadellau cyfan ac yn gadael y mynydd heb ei bori. Mae'r diadellau hyn yn allweddol i reoli'r mynydd yn effeithiol a chynorthwyo i gynnal ei fioamrywiaeth. Yn bennaf mynydd agored yw Mynydd Llantysilio felly mae'n rhaid iddo gael ei bori gan 'ddiadellau cynefin' gan fyddai diadellau nad ydynt yn rhai cynefin yn crwydro'r mynydd a ni fuasai'n bosibl i'w rheoli oni bai fod y mynydd yn cael ei ffensio'n adrannau. Buasai hon yn dasg drom ac anodd i ymgymryd â hi wrth ystyried y dirwedd a buasai'n newid natur y tirlun i ryw raddau. O ganlyniad, petai'r 'diadellau cynefin' yn cael eu 'colli' buasai'r mynydd yn anodd iawn ei reoli, a buasai ei fioamrywiaeth ac ecosystemau iach o dan risg.
- 9.1.5 Er nad oedd cytundebau rheoli gyda CNC wedi bod ar gael i gyllido rheoli cynefin ar Fynydd Llantysilio ers 2014, rhoddwyd Caniatâd (hawliau) i waith gael ei gynnal. Ymgwymerwyd â gwaith ar ochr orllewinol y mynydd, ond ychydig o waith rheoli llystyfiant ar yr ochr dwyreiniol yn ystod y cyfnod yma.
- 9.1.6 Mae'n hanfodol felly fod rheolaeth fwy gweithredol yn digwydd ar y mynydd yn syth ac yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor yn cael ei annog i ddeall fod CNC yn awyddus i dirfeddianwyr, porwyr, Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Dinbych a Chyngor Cymunedol Llantysilio i fod ynghlwm â'r gwaith hwn. Mae hefyd yn galonogol fod CNC eisiau gweld partneriaeth rhwng y tiffeddianwyr, porwyr, GTAGC, Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych a nhw ei hunain er mwyn gwella rheolaeth y rhostir ar y rhostiroedd i gyd yn Sir Dinbych i leihau'r risg o danau trychinebus.

- 9.1.7 Fodd bynnag, i hyn fod yn llwyddiannus mae'n rhaid goresgyn rhai rhwystrau sy'n bodoli ers tro a lefelau o ddrwgdybiaeth rhwng y tiffeddianwyr, porwyr, ffermwyr a CNC. Mae teimladau cryf ymhlith y porwyr fod CNC wedi cymryd y cyfrifoldeb am reolaeth y mynydd oddi ar y ffermwyr mynydd. Adroddwyd i'r Pwyllgor fod ffermwyr wedi rhybuddio CNC o'r peryglon posibl o'u hymarferion rheoli ond teimlant fod y sefydliad wedi anwybyddu'r cyngor hwn. Maent hefyd yn teimlo fod statws SDGA y mynydd yn broblemus mewn perthynas ag ymgymryd ag ymarferion rheoli mynydd yn effeithiol oherwydd y lefelau o lywodraethu a biwrocratiaeth ynghlwm â cheisio caniatâd a chyflawni'r gwaith. Yn eu barn nhw roedd rheolau llym yn ymwneud ag ymgymryd ag ymarferion rheoli mynydd a thynnu arian i lawr am y gwaith yn drwm ac yn cymryd llawer o amser. Roedd rôl gorfodi CNC yn cael ei weld yn ffactor bwerus yn yr amharodrwydd i ymgymryd â gwaith rheoli tir rhag ofn i gamgymeriadau gael eu gwneud a oedd yn golygu risg o erlyniaeth ac/ neu gosb ariannol. Mae angen newid agweddau sydd wedi cyfyngu'r gwaith rheoli tir rhag cael ei gynnal. Dylid rhoi ystyriaeth i ailgyflwyno torri neu losgi strimynnau atal tân ac i gynyddu lled ymylon ochor y ffyrdd i atal tanau a achosir gan yrwyr yn pasio heibio.
- 9.1.8 I warchod dyfodol Mynydd Llantysilio mae'n hanfodol fod rhanddeiliaid yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chytuno ffordd ymlaen mewn perthynas â'r gwaith adfer a rheolaeth y mynydd yn y dyfodol, ac i gynorthwyo gyda chael gafael ar unrhyw gyllid. Buasai cyfarfodydd o'r math yn ddefnyddiol iawn er mwyn cydbwysu safbwyntiau croes, cynorthwyo gyda deall blaenoriaethau ei gilydd, cynorthwyo ag adeiladu perthnasau a chynyddu lefel ymddiriedaeth yn y naill a'r llall. Efallai bod awgrymiad Cymdeithas y Porwyr i ddatblygu polisi cydweithredol rhwng bob parti â diddordeb mewn rheoli'r mynydd h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, y tiffeddianwyr, porwyr, Cyngor Cymunedol Llantysilio etc yn un gwerth ei ddilyn.
- 9.1.9 Gallai penodi swyddog rheoli rhostir, yn debyg i'r un a fodolai yn ystod Prosiect Tirwedd y Grug a'r Caerau gynorthwyo gyda thynnu partneriaeth o'r fath at ei gilydd. Gallai'r cydlynnydd hwn weithio gyda'r holl bartion i adnabod a goresgyn rhwystrau penodol i gadw a rheoli ardal rhostir fel rhan o'r system amaethyddol ac i sefydlu rhaglenni rheolaeth tymor hir er budd pori ucheldiroedd a'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y bydd cyllid ar gyfer swydd o'r fath heb os yn gyfyngedig.
- 9.1.10 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod fod ansicrwydd mewn perthynas â pholisïau amaethyddol yn y dyfodol yn creu rhagor o broblemau i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- 9.1.11 Fodd bynnag, mae'n braf dysgu fod Ystâd Llantysilio yn fodlon gweithio gyda'r awdurdodau mewn perthynas â gwaith rheolaeth tir yn y dyfodol a'i fod mewn trafodaethau gyda CNC ynghlwm â chytundebau rheoli gyda bwriad o gynorthwyo'r porwyr i gael gafael ar y cyllid rheoli tir sydd ar gael. Yn ychwanegol, mae'r Ystâd hefyd yn fodlon ymgymryd â rhywfaint o'r rheoli tir ei hun.

- 9.1.12 Croesewir cadarnhad fod CNC a GTAGC yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Cynlluniau Tân Tactegol Gweithredol ar gyfer yr ardaloedd o ucheldir sydd fwyaf bregus yng Ngogledd Cymru, ynghyd a'r ffaith fod yr holl brif asiantaethau yn agored ac yn barod i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi ar y cyd i baratoi at y math yma o ddigwyddiadau.
- 9.1.13 Er mwyn gwella'r lefel o reoli cynefin, lleihau'r posibilrwydd o danau yn dechrau yn y dyfodol ac arwain at ymatebion effeithiol i danau gwyllt, mae'n rhaid cael cydlyniant gwell rhwng y partion i gyd ac ymwybyddiaeth o rolau, gallu ac anghenion y naill a'r llall i weithio tuag at nod cyffredin.

9.2 Y digwyddiad tân a'i reolaeth

- 9.2.1 Wedi adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddynt mae'r Pwyllgor yn dod i'r canlyniad nad oedd tystiolaeth i benderfynu os oedd y tân ar Fynydd Llantysilio yn ystod haf 2018 yn ddamweiniol neu wedi ei gynnu yn fwriadol. Roedd ei effeithiau yn ddinistriol iawn oherwydd beth ellir ei ddisgrifio'n 'storm berffaith' - cyfuniad o amodau atmosfferig a daear a gynorthwyodd y tân i losgi uwchben ac o dan y ddaear am gyfnod hir o amser. Er gwaethaf hyn roedd diogelwch o'r pwys mwyaf ac fe'i cynhaliwyd drwy'r digwyddiad ac ni chollwyd cartrefi oherwydd y tân.
- 9.2.2 Roedd diffyg rheolaeth gadarn o'r tir a arweiniodd at nifer cyfyngedig o strimynnau atal tân, llystyfiant trwchus a phresenoldeb isdyfiant sych pydredig wedi darparu'r tân â 'thanwydd' ychwanegol. Roedd tirwedd anodd a bodolaeth gwagleoedd yn achosi problemau i bersonél Gwasanaeth Tân ac Achub geisio ymdopi â'r mynydd i ddiffodd y tân. Er bod ffermwyr lleol yn garedig iawn wedi cynnig darparu dŵr i'r Gwasanaethau Tân ac Achub i gynorthwyo gydag ymladd y tân, nid oedd angen hyn gan fod y Gwasanaeth, drwy ei gysylltiad gyda'r cwmnïau dŵr gyda mynediad at gyflenwad digonol o ddŵr o'r system ddŵr cyhoeddus i gyrraedd ei anghenion.
- 9.2.3 O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil posibl 2004 gall unrhyw sefydliad Categori 1 sy'n ymwneud â digwyddiad tebyg i hwn ddynodi'r digwyddiad fel 'digwyddiad mawr/ argyfwng'. Fodd bynnag, mae'r term 'digwyddiad mawr/ argyfwng' yn golygu gwahanol bethau i wahanol asiantaethau. Gan fod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cael ei gynnull cymrodd rôl 'sefydliad arweiniol' o'r dechrau. O safbwynt y Gwasanaeth Tân ac Achub nid oedd y digwyddiad tân ar Fynydd Llantysilio yn cyrraedd eu diffiniad o 'ddigwyddiad mawr'. Yn nherminoleg Gwasanaeth Tân ac Achub 'digwyddiad mawr' yw digwyddiad lle nad oes gan y Gwasanaeth adnoddau digonol i ymateb a delio ag o. Ystyria'r Gwasanaeth fod ganddynt adnoddau digonol i ddelio gyda'r digwyddiad er gwaethaf ei hyd, gan hynny dyna'r rheswm na'i ddynodwyd yn 'ddigwyddiad mawr'.

Cyfathrebu

- 9.2.4 Gyda budd o edrych yn ôl mae'r Pwyllgor yn cytuno gyda'r farn a fynegwyd gan nifer o asiantaethau, rhanddeiliaid eraill a Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru, y buasai rheolaeth y digwyddiad wedi elwa o'i ddynodi'n 'ddigwyddiad mawr/ argyfwng'. Petai hyn wedi digwydd buasai gweithdrefnau Cynllunio Argyfwng wedi cael eu dechrau, gan gynnwys sefydlu Grŵp

Cydlynu Tactegol (GCT). Buasai hyn wedi hwyluso agor sianeli cyfathrebu rhwng yr holl asiantaethau a'r partion a effeithiwyd ac wedi cynorthwyo gyda'r ddarpariaeth o negeseuon clir, wedi cael eu cytuno, cyson a rhagweithiol i'r cyhoedd. Roedd cyfathrebu, neu ddiffyg gwybodaeth glir, reolaidd a chyson i'r rheiny a effeithiwyd gan y tân yn thema gyson yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Tra bod y Pwyllgor yn cydnabod y buasai'n amhosibl rheoli'r cyfryngau cymdeithasol a defnydd, neu gam ddefnydd, y cyhoedd ohono, buasai bodolaeth GCT efallai wedi bod yn ddefnyddiol i ymateb i negeseuon a bostiwyd ar gyfryngau cymdeithasol drwy ddarparu gwybodaeth glir, gywir ac amserol gan y rheiny oedd yn delio gyda'r digwyddiad. Buasai'r GCT hefyd wedi cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i'r cyhoedd gan yr asiantaethau amrywiol ar faterion fel yr hawl i dorri strimynnau atal tân, cau ffyrdd, ansawdd aer a dŵr etc. Mae'r Pwyllgor felly'n credu'n gryf y dylid sefydlu GTC cyn gynted ag y bo modd yn ystod ymateb i ddigwyddiad, fel tân ar fryn neu fynydd, llifogydd etc., os yw'r digwyddiad yn debygol o gael ei ddynodi'n 'ddigwyddiad mawr/ argyfwng' ai peidio, o dan ddarpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Gall y GCT sefyll i lawr wedyn petai'n dod yn amlwg nad oedd ei angen.

- 9.2.5 Yn ychwanegol buasai sefydlu GCT ffurfiol wedi hwyluso sianel gyfathrebu agored rhwng yr asiantaethau i gyd a fuasai wedi sicrhau fod gan bob ymatebwr Categori 1 gyswllt uniongyrchol gyda'i gilydd, ac yn cael eu diweddarun rheolaidd ar y sefyllfa fel yr oedd yn datblygu. Buasai hefyd wedi galluogi bob asiantaeth i gael gwell dealltwriaeth o allu'r naill a'r llall a'r adnoddau ar gael iddynt. Buasai hefyd wedi darparu'r rheiny a effeithiwyd gan y digwyddiad gyda mynediad at bwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a ddilyswyd.

Tân neu danau a sut i ddelio â nhw yn dyfodol?

- 9.2.6 O'r dystiolaeth a gyflwynwyd mae gwahaniaeth mewn barn ynglŷn ag oedd y tân hwn mewn gwirionedd yn un tân neu dau dân ar wahân. Ym marn broffesiynol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, roedd y tanau ar Fynydd Llantysilio ar 18fed a 19eg Gorffennaf 2018 yn ddau ddigwyddiad ar wahân a heb gysylltiad. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gadarn o'r farn fod y tân ar 19eg Gorffennaf "yn amlwg nid y tân blaenorol yn ail gynnau" gan ei fod wedi ei leoli "rhyw 361 metr, bron i chwarter milltir i ffwrdd o leoliad y tân y noson cynt." Mae rhai trigolion lleol a grwpiau eraill yn anghytuno gyda barn y Gwasanaeth Tân ac Achub ar hyn, ynghyd ag un cynghorydd sir a oedd yno pan ailgydiodd y tân.
- 9.2.7 Mynegodd Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant, tîrfeddianwyr a thrigolion y farn fod diffygion yng nghyfnod cynnar y tân. Roeddynt yn teimlo petai'r tân wedi cael ei reoli yn y cyfnod cynnar hwnnw ni fuasai'r tân eilaidd wedi ailgydio fel y gwnaeth. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno petai'r tân wedi cael ei "daro'n galed" o'r dechrau ni fyddai wedi lledaenu fel y gwnaeth.
- 9.2.8 Mynegodd porwyr a thirfeddianwyr bryderon mai ychydig iawn o gyswllt neu drafodaeth a ddigwyddodd gyda nhw, oni bai am gyswllt yn y dechrau i sefydlu pwyntiau mynediad i'r mynydd ac i gael cyfarwyddiadau i leoliad y tân yn ystod y tân gwreiddiol. Teimlant fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn amharod i'w cynnwys mewn unrhyw ffordd, er gwaetha'r ffaith fod ganddynt

wybodaeth ddefnyddiol am yr ardal a gyda stoc yn pori ar y mynydd ar y pryd. Yn eu barn nhw petaent wedi gwranddo ar eu cyngor a phe geisiwyd eu gwybodaeth mae'n bosib y byddai'r digwyddiadau lle bu cerbydau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn troi drosodd wedi cael eu hosgoi.

- 9.2.9 Roedd y porwyr a'r tirfeddianwyr yn teimlo bod diffyg cysondeb yn dilyn newid shifftiau ac o ganlyniad roedd gwahanol syniadau a dulliau o ddelio gyda'r tân yn cael eu rhoi ar waith. Gadawyd hwy gyda'r argraff nad oedd un person mewn rheolaeth o'r gwaith ar y llawr, na roddwyd yr un tactegau ar waith, a bod llawer o'r personél Tân ac Achub gydag ychydig neu ddim profiad o ddelio gyda thanau mynydd a grug. O ganlyniad, roeddynt o'r farn y dylid ymestyn hyfforddiant ymladdwyr tân i gynnwys adnabod y gwahanol fathau o lystyfiant y ddaear gan gynnwys eithin, a'r defnydd o gerbydau pob tirwedd wedi mewn amodau lle maent wedi eu llwytho'n llawn i osgoi iddynt droi drosodd fel y digwyddodd. I hwyluso datblygiad y sgiliau hyn mae Ystâd Llantysilio wedi cynnig mynediad i'w dir at bwrpasau hyfforddiant.
- 9.2.10 Yn ôl eu natur mae tanau gwyllt fel yr un yma yn ofnadwy o anrhagweladwy. Cytuna'r Pwyllgor â'r awgrymiad a wnaed yng nghyfarfod ôl drafodaeth fewnol Cyngor Sir Dinbych ar fanteision datblygu a mabwysiadu cynllun tân coedwig/rhostir a fyddai yn ei le at ar gael yn rhwydd i'r asiantaethau i gyd alw arno petai digwyddiad o'r fath yn digwydd yn y dyfodol.
- 9.2.11 Teimlir y buasai canllaw safonol i'r holl asiantaethau yn cynorthwyo'r ymateb i ddigwyddiadau tebyg ac yn hwyluso cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng pawb oedd yn cymryd rhan (gan gynnwys cynghorau tref a chymunedol lleol). Mae'r Pwyllgor o'r farn y buasai'n ddefnyddiol petai'r cynllun yn cynnwys:
1. rhestr o gontractwyr lleol ac adnoddau i gynorthwyo mewn argyfyngau gyda thorri strimynnau atal tân etc. (yn debyg i restr contractwyr gwaith cynnal y gaeaf)
 2. gwybodaeth ar sut i ddelio gyda'r posibilrwydd o golli mastiau telathrebu, Teledu/Radio a chysylltiadau technegol hanfodol a'u heffaith uniongyrchol ar ymatebion y gwasanaethau brys i ddigwyddiadau, busnesau lleol, twristiaeth a diwydiannau eraill ac o bosib diogelwch lleol a gwladol
 3. gofyn am gysylltu gyda'r Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru lle mae lles trigolion gwael a bregus o dan gwestiwn; ac
 4. ystyried gosod monitorau ansawdd aer/ dŵr dros dro i warchod iechyd y cyhoedd yn ystod cyfnod y digwyddiadau;
- 9.2.12 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod fod yr asiantaethau yn gyffredinol wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd ac mewn ewyllys da o dan amodau oedd yn anodd iawn dros gyfnod hir iawn o amser, ac wedi bod yn rhagweithiol yn eu hymagwedd i'r sefyllfa.

10. Argymhellion y Pwyllgor Craffu

- 10.1 Yn dilyn ei adolygiad ar y cyd o'r digwyddiad tân ar Fynydd Llantysilio mae Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru (FGLGC) wedi cytuno ar eu hargymhellion ar gyfer eu gweithredu mewn tanau mynydd yn y dyfodol yn barod. Mae Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cymeradwyo'r argymhellion, yn bennaf:

	Asiantaeth/Sefydliad(au) â chyfrifoldeb
<p>(i) Cynnull Grŵp Cydlynu Tactegol (GCT) yn gorfforol neu'n rhithwir i hyrwyddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhyngweithredu aml-asiantaeth • Negeseuon cyson, gweithredol, wedi eu cytuno arnynt i'r cyhoedd • Diweddariadau dyddiol gan asiantaethau • Ystyriaeth i faterion adfer yn gynt yn y cyfnod ymateb • Gwell dealltwriaeth o'r adnoddau a'r cyfarpar technegol i ymladd tân ar draws gwahanol sefydliadau. • Deall y pwysau a'r effaith ar bersonél yn y prif asiantaethau (GTAGC) a'r rhai sy'n cefnogi 	Holl ymatebwyr Categori 1
<p>(ii) I drefnu a chynnal sesiwn ymgwyfarwyddo i rannu gwybodaeth a phrofiad o danau rostir a glaswelltir. Buasai hyn hefyd yn ennill ymwybyddiaeth am yr adnoddau a chyfarpar yr asiantaethau ar draws Gogledd Cymru.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Dinbych • Cyfoeth Naturiol Cymru • Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

<p>(iii) Buasai ymgysylltu mwy strwythuredig gyda phorwyr a thirfeddianwyr yn cynorthwyo i annog rheolaeth tir gweithredol. Ystyried defnyddio Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol Cenedlaethol (SARB) fel dull o sicrhau cefnogaeth ehangach a phrynu mewn i leihau risg tanau gwyllt.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Dinbych • Cyfoeth Naturiol Cymru • Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru • Rheolwyr Tir Cadwraeth • Ffermwyr • Porwyr
<p>(iv) Pob asiantaeth i adolygu gweithdrefnau rheoli porth i sicrhau diogelwch ac i'r uned gorchymyn digwyddiadau gael ei hysbysu ynglŷn â phwy sy'n bresennol ar y safle</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Holl asiantaethau
<p>v) CNC i adolygu'r Mynegai Risg Tân ac asesu'r wybodaeth sy'n cael ei fwydo i mewn iddo. Pan mae'r Mynegai wedi ei adolygu ei rannu gydag asiantaethau eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfoeth Naturiol Cymru
<p>(vi) Datblygu cynllun tanau gwyllt rhanbarthol i Ogledd Cymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfoeth Naturiol Cymru • Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru • Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru
<p>(vii) CSD a CNC i ystyried pa ymgysylltu pellach sydd ei angen i ymdrin â phryderon cynghorwyr lleol a buddiannau busnes a effeithiwyd yn ystod y cyfnod ymateb.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Dinbych • Cyfoeth Naturiol Cymru

10.2 Yn ychwanegol, cynigia Pwyllgor Craffu Cymuned yr argymhellion canlynol mewn perthynas â delio â digwyddiadau mawr/ argyfwng a gofynnai iddynt gael eu cynnwys yn y Cynllun Tan Gwyllt Rhanbarthol:

	Asiantaeth/sefydliad(au) gyda chyfrifoldeb
<p>(i) fod Grŵp Cydlynu Tactegol yn cael ei sefydlu yn y camau ymateb cynnar o ymateb i ddigwyddiad mawr/</p>	<ul style="list-style-type: none"> • pob ymatebwr Categori 1

	<p>argyfwng, fel tan gwyllt, er mwyn hwyluso un pwynt cyswllt i'r holl asiantaethau, y rheiny a effeithir, y wasg/cyfryngau a'r cyhoedd i sicrhau fod pawb sy'n cymryd rhan wedi cael eu hysbysu'n llawn am y digwyddiad sy'n datblygu a hynny'n rheolaidd. Buasai bodolaeth y Grŵp yn cynorthwyo trosglwyddo effeithiol o gyfrifoldebau rheoli digwyddiad yn ystod newid shifft. Gellir sefyll y GCT i lawr petai'n dod yn glir nad oedd bellach ei angen;</p>	
(ii)	<p>datblygiad rhestr o gontractwyr lleol ac adnoddau i gynorthwyo gyda thorri strimynnau atal tân etc yn ystod argyfyngau (yn debyg i restr contractwyr cynnal a chadw dros y gaeaf mae'r awdurdodau lleol yn eu llunio yn rheolaidd).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Dinbych • Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru • Cyfoeth Naturiol Cymru
(iii)	<p>gwybodaeth ar sut i ddelio gyda'r posibilrwydd o golli mastiau telathrebu/ Teledu/ Radio ac unrhyw gysylltiadau technoleg hanfodol a'u heffaith uniongyrchol ar ymateb y gwasanaethau brys i ddigwyddiadau, busnesau lleol, twristiaeth a diwydiannau eraill ac o bosib diogelwch lleol a gwladol;</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Dinbych • Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru • Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru • Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru
(iv)	<p>yr angen i gysylltu gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru lle mae lles pobl wael a bregus yn y cwestiwn; ac</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Dinbych • Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru • Cyfoeth Naturiol Cymru • Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru • Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru
(v)	<p>ystyriaeth i osod monitorau ansawdd aer/ dŵr dros dro i warchod iechyd y cyhoedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Dinbych • Cyfoeth Naturiol Cymru

dros gyfnod y math hwn o ddigwyddiad;	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru
---------------------------------------	--

- 10.3 Argymhella Pwyllgor Craffu Cymuned fod swydd Swyddog Rheoli Ucheldir/Rhostir yn cael ei Sefydlu. Mae'r Pwyllgor yn gweld y buddiannau'r swydd hon yn cynnwys arwain ar y cydlynu effeithiol gyda'r amrywiol asiantaethau, tiffeddianwyr, ffermwyr, porwyr a chymunedau lleol ar weithgareddau a chynlluniau rheolaeth tir, gyda bwriad i gefnogi'r cynefin, ecosystem ac economïau ardal yr ucheldir a lleihau'r risg o danau gwyllt. Awgrymir i asiantaethau perthnasol i gytuno ar sut gellir cyllido a chefnogi'r swydd allweddol hon.

Asiantaeth/ sefydliad (au) sy'n gyfrifol	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Dinbych Cyfoeth Naturiol Cymru Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
---	---

- 10.4 Argymhella'r Pwyllgor bod gohebiaeth yn cael ei yrru i Lywodraeth Cymru yn ceisio iddo:

- (i) weithredu **ar frys** i sicrhau fod Polisiâu Amaethyddol y dyfodol yn anelu at sicrhau hyfywedd economaidd ac amgylcheddol yr ardaloedd ucheldir a rhostir ar draws Cymru drwy sicrhau fod ymarferion a chynhyrchu ffermio defaid, elfennau hanfodol ar gyfer rheolaeth tir effeithiol a hyfyw yn yr ardaloedd hyn, yn economaidd hyfyw ac yn cael eu cynnal ar gyfer y dyfodol; ac
- (ii) i geisio cymorth ariannol i'r gwaith adfer ar Fynydd Llantysilio

Asiantaeth/ sefydliad (au) sy'n gyfrifol	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Dinbych Cyfoeth Naturiol Cymru Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
---	---

11. Cydnabyddiaethau

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r holl wasanaethau, sefydliadau, busnesau ac unigolion am eu cydweithrediad a chymorth wrth ymgymryd â'r adolygiad hwn. Mae'r holl gyfraniadau, boed hynny'n ysgrifenedig, llafar, ffotograffig neu luniau fidio, wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor yn ei waith, ac mae wedi cynorthwyo i sicrhau fod canfyddiadau'r adolygiad wedi eu seilio ar draws doriad eang o brofiadau a barn broffesiynol. Ni fuasai cynhyrchu'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl oni bai am barodrwydd pawb i gyfrannu ac ymgysylltu gyda'r adolygiad.

Rydym yn hyderus y gwnaiff bawb a gymerodd rhan neu a effeithiwyd gan y tân roi ystyriaeth deg i'n hargymhellion ac ymdrechu i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd gyda'r bwriad o osgoi digwyddiad o'r fath ddigwydd eto yn y dyfodol. Petai tân gwyllt yn cynnau eto neu ddigwyddiad argyfwng yn digwydd, rydym yn gobeithio bydd y gwersi a ddysgwyd o'r tân penodol hwn yn arwain at unrhyw ymateb amlasiantaeth gael ei gydlynu'n effeithiol, gyda'r partneriaid a'r rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu o'r datblygiadau yn rheolaidd.


Fel Pwyllgor rydym yn mawr obeithio gydag amser a'r gefnogaeth addas y gwnaiff y cynefin ar Fynydd Llantysilio wella ac y bydd yr economi leol a'r cymunedau yn elwa o ganlyniad. Rydym yn wir obeithio mai etifeddiaeth barhaol o'r trychineb amgylcheddol a ddigwyddodd ar y mynydd penodol hwn yw bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael effaith bositif ar reoli tir, atal tanau neu'r ymateb dilynol i danau rhostir lle bynnag neu bryd bynnag maent yn digwydd, yn Sir Ddinbych, ar draws Cymru ac ymhellach.

12. Rhestr o Dermau

Talfyriad	Teitl llawn neu enw
AGA	Ardal Gadwraeth Arbennig
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
ARGBC (JESIP)	Athroniaeth Rhyngweithredadwyedd Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESIP)
BSLTB (SARB)	Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CSD	Cyngor Sir Dinbych
DASP 2004	Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
DCHT 2000 (CRoW)	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
DCWW	Dŵr Cymru Welsh Water
FGL	Fforwm Gwydnwch Lleol
FGLGC	Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru
GCT	Grŵp Cydlynu Tactegol
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
GTAGC	Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru
GTA	Gwasanaeth Tân ac Achub
GTAGC	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
MGD (LEI)	Menter Gwella'r Dirwedd
MDT (FSI)	Mynegai Difrifoldeb Tân
OAP (PPE)	Offer Amddiffynnol Personol
RTD	Rheolwr Technegol ar Ddyletswydd
SDGA (SSSI)	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SCCH (PSCO)	Swyddog(ion) Cymorth Cymunedol yr Heddlu
ICU	Uned Gorchymyn Digwyddiad
Ymatebwr Categori 1	Asiantaeth sydd wedi ei ddynodi o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 fel Ymatebwr Categori 1- y rhai a fu'n ymwneud gyda'r tân penodol yn yr achos yma oedd Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Dinbych
Cynefin	Yw ffordd draddodiadol o reoli diadellau o ddefaid ar ardaloedd mawr o dir comin a phori cymunedol, mae'n galluogi i wahanol ffermwyr neu borwyr mewn tirwedd eang fel rhostir i bori gwahanol ardaloedd heb yr angen am ffensys, mae bob dafad yn cadw at ardal arbennig ei diadell ar y mynydd/ tir comin. Mae diadellau cynefin wedi eu magu dros nifer o genedlaethau. Yn y dechrau, roedd rhaid cadw'r defaid mewn ardal o dir heb ffens drwy fugeilio cyson. Dros amser mae eu tiriogaeth yn mynd yn ymddygiad dysgedig, wedi ei basio o ddafad i oen dros genedlaethau olynol. Mae gan y diadellau hyn felly allu greddfod i

	gadw at ryw <i>gynefin</i> (ardal fechan leol) drwy gydol eu bywyd ac o ganlyniad mae'r wŷn yn dysgu eu cynefin gan eu mam.
--	---

Map yn dangos yn fras ardal Mynydd Llantysilio a effeithiwyd gan y tân (hawlfraint Cyfoeth Naturiol Cymru)



Atodiad 2

Llinell amser o'r digwyddiad tân a'i reolaeth

Llinell amser o sut wnaeth y sefydliadau ymwneud â'r tân a'r gweithgareddau cysylltiedig o'r riport cyntaf i'r Gwasanaethau Brys hyd at iddo gael ei ddatgan wedi ei ddiffodd

Dyddiad	Gweithrediad
18 ^{fed} Gorffennaf 2018	Am 11pm ymatebodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) i alwad 999 yn riportio tân "tu ôl i'r <i>Conquering Hero</i> ...ychydig uwchben Maengoron Isaf, Rhewl". Roedd personél tân yn cymryd rhan weithredol mewn dod â'r tân hwn dan reolaeth tan fore 19 ^{eg} Gorffennaf. (gweler adran 6.16 o'r adroddiad a'r 'Gwahanol Farnau')
19 ^{eg} Gorffennaf	<p>Nododd GTAGC fod adnoddau wedi cael eu gostwng fesul tipyn o 1.49am ar fore 19^{eg} Gorffennaf wrth i'r tân ddod o dan reolaeth. Arhosodd criw o 4 ymladdwr tân i wyllo rhag tân a gwelwyd a deliwyd gydag un ardal unigol o ailgynnau ychydig ar ôl 3.30am. Daethpwyd a rhagor o adnoddau yn ôl i'r ardal ac aethant ymlaen i dampio mannau poeth am y 2 awr nesaf nes penderfynwyd nad oedd angen unrhyw weithredu pellach. Fel mesur rhagofalus, roedd ail-arolygiad o'r ardal wedi'i raglennu am 7am y diwrnod hwnnw. Erbyn 7.40am roedd yr ail-arolygiad wedi cadarnhau fod y tân wedi'i ddiffodd, er gellir gweld mwg o hyd yn codi o'r ddaear losgedig. Roedd aelod o'r cyhoedd yno ar y pryd, a chadarnhaodd y byddai ef/hi yn monitro'r ardal trwy gydol y dydd. Cadarnhaodd neges o'r safle am 8.21am y byddai'r safle mwy na thebyg yn mudlosgi am 48 awr arall, a fuasai o bosibl yn annog galwadau 999 pellach gan aelodau o'r cyhoedd. Digwyddodd hyn, derbyniwyd 2 alwad am 11.39am & 12.02pm yn riportio mwg yn codi, ond dim fflamau. Am oddeutu 10.50am gwnaed galwad gan GTAGC i aelod lleol o'r cyhoedd a oedd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Tân ac Achub a chadarnhaodd fod fflerio weithiau roeddynt yn marw i lawr a'i farn ef/hi nid oedd angen presenoldeb GTAGC.</p> <p>2.20pm: derbyniwyd galwad 999 yng Nghanolfan Rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Llanelwy yn riportio tân yn llosgi ar y mynydd. Roedd y tân hwn oddeutu 361 metr</p>

	<p>(chwarter milltir) i ffwrdd o leoliad y tân y noson cynt, ac felly ym marn broffesiynol y GTAGC nid oedd yn ailgynnau. Deliodd GTAGC gyda'r digwyddiad hwn nes iddo gael ei ddatgan wedi cau am 1.45pm ar 25^{ain} Medi 2018.</p> <p>Derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru (HGC) adroddiad gan GTAGC fod tân ar Fynydd Llantysilio ac yn gofyn a gallai HGC gynorthwyo. Y cais oedd i swyddogion fod yn bresennol ac i siarad â deiliaid tai yn yr ardal i'w hysbysu am y tân. Nid oedd angen gwacau ar yr adeg yma. O fewn cyfnod byr, a heb i unrhyw swyddogion wedi bod yn bresennol, ffoniodd GTAGC yn ôl a chanslo'r cais gan eu bod yn delio â'r mater.</p> <p>Tân yn cael ei riportio i Wasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych gan breswilydd lleol. Roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn bresennol pan gyrhaeddodd Gwasanaethau Cefn Gwlad. Gwnaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad y ddau '<i>Fire Foggers</i>' a staff ar gael, a weithiodd ochr yn ochr staff GTAGC mewn ymgais i ddod a'r tân dan reolaeth, gweithiodd y staff ochr yn ochr â GTAGC drwy gydol yr wythnos.</p> <p>Newyddion am y tân yn cael ei riportio i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) drwy Wasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych - staff Gwasanaethau Cefn Gwlad a GTAGC yn bresennol. Nid yw CNC yn mynd i danau ar dir preifat oni bai derbynnir cais am gymorth gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.</p>
20 ^{fed} Gorffennaf	Trafododd CNC y cyfarpar oedd ganddynt ar gael gyda GTAGC & Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor a gynigiodd ddefnydd o gerbydau oddi ar y ffordd. Nid oedd angen cerbyd â thrac ar yr adeg honno.
24 ^{ain} Gorffennaf	Yn ôl Gwasanaethau Cefn Gwlad ymddangosai fod y tân wedi ei ddiffodd ar y dyddiad yma.
25 ^{ain} Gorffennaf	<p>CNC yn ystyried fod y tân wedi ei ddiffodd, ond fe ailgydiodd a newidiodd cyfeiriad y gwynt gan symud y tân i'r de tuag at blanhigfa goed.</p> <p>Nododd Gwasanaethau Cefn Gwlad hefyd erbyn y dyddiad yma ymddangosai fod y tân wedi ailgynnau ac yn llosgi tu hwnt i reolaeth.</p>
26 ^{ain} Gorffennaf	Gofynnodd GTAGC petai'r heddlu yn gallu pennu argaeledd drôn a pheilot er mwyn cynorthwyo i edrych beth oedd maint y tân ar y mynydd.

	<p>Gwnaed peilot drôn a spotiwr ar gael ac roedd y ddau yn bresennol yn y Ponderosa am 2.30pm</p> <p>Cytunodd CNC gyda GTAGC y gellir tyllu ffos o fewn y SDGA ar ymyl bloc o goetir i warchod eiddo gyferbyn. Oherwydd newid yng nghyfeiriad y gwynt ni wnaeth y tân ddynesu at y coetir.</p>
<p>27^{ain} Gorffennaf</p>	<p>Bu Gwasanaeth Priffyrdd Cyngor Sir Dinbych yn ymwneud â'r tân am y tro cyntaf yn hwyr ar brynhawn 27^{ain} Gorffennaf pan wnaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad gais am beiriant ffustio i dorri eithin ar ymyl y briffordd ar Fwlch yr Oernant.</p> <p>Dros nos ac i mewn i ddydd Sadwrn, gwaethygodd yr amodau wrth i'r tân agosáu at y briff ffordd. Derbyniwyd cais, gan GTAGC drwy Wasanaethau Cefn Gwlad, i gau'r ffordd. Yn ystod y dydd, ac yn enwedig tua min nos, gwaethygodd yr amodau wrth i'r tân agosáu at y Ponderosa a gofynnwyd i'r Gwasanaeth Priffyrdd 'gryfhau' sut oedd y ffordd wedi ei chau drwy roi pwyntiau rheoli wedi eu staffio gan fod pobl yn dal i ddewis gyrru drwy'r ardal.</p> <p>Cafodd staff Priffyrdd eu sefyll i lawr a rhoddwyd Heddlu yn eu lle ar y pwyntiau rheoli wedi'u staffio.</p> <p>Caeodd Gwasanaeth Priffyrdd y ffordd ar sail diogelwch (oherwydd i fwg effeithio gwelededd). Tîm cyfryngau'r Heddlu yn cael eu hymgysylltu. Cadarnhawyd gan yr Heddlu nad oedd GTAGC wedi datgan hwn yn 'Ddigwyddiad 'Mawr/Argyfwng'. Drôn yr Heddlu a dau weithredwr ar y safle. Adnoddau ychwanegol yr Heddlu yn bresennol gan fod y tân yn lledaenu. Roedd digon o staff ar gael petai angen gwacau. Y mwyafrif o staff yr Heddlu oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yn cynorthwyo gyda'r pwyntiau lle oedd y ffyrdd wedi eu cau gyda staff Gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor.</p> <p>Cysylltodd yr Heddlu gyda chwe eiddo cyfagos i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac asesu opsiynau petai'r angen i wacau yn codi. Yn ôl yr Heddlu roedd hwn yn ddiwrnod trwm o ran adnoddau, gyda swyddogion ar y safle trwy'r dydd a nos.</p>

	<p>Sefydlodd y Cyngor ganolfan orffwys yn barod at wacau eiddo yn dilyn cysylltiad rhwng y Cyngor, GTAGC, HGC & Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Goledd Cymru (GCARGC). O'r 12 preswlydd a fuasai rhaid eu gwacau buasai 6 angen llety, roedd gan y gweddill fynediad at ddarpariaeth amgen. Yn y pendraw nid oedd angen gwacau.</p> <p>Gwnaeth GTAGC gais i gael torri strimynnau atal tân er mwyn arafu'r tân a oedd wedi cyrraedd llethrau Moel y Faen, uwchben Bwlch yr Oernant. Trefnodd swyddogion Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor ac Ardal o Harddwch Eithriadol Naturiol (AHNE) i CNC i ymgymryd â'r gwaith. Darparodd CNC beiriannau ac arbenigedd i ymgymryd â thorri strimynnau atal tân (darparwyd 2 ddyn a pheiriannau a arhosodd ar y safle am 6 niwrnod). Ymgwymerwyd â'r gwaith o dan gyfarwyddyd y Gwasanaeth Tân ac Achub.</p> <p>Yn ystod y nos symudodd y tân yn ei flaen tuag at ffordd Bwlch yr Oernant a gofynnodd GTAGC am gael torri strimynnau tân ar hyd ochr y ffordd - roedd hyn yn gofyn am dractor a pheiriant ffustio wedi ei osod ar yr ochr a ddarparwyd gan Wasanaeth Priffyrdd CSD. Gweithiodd Ceidwaid Gwasanaeth Cefn Gwlad ochr yn ochr â staff GTAGC i ddod â'r tân dan reolaeth.</p>
<p>28^{ain} Gorffennaf</p>	<p>10 eiddo oedd mewn perygl posibl oherwydd y tân, ond roedd amodau'r tywydd, a'r ffordd yn ffurfio strimyn atal tân, yn ffafriol. Canolfan orffwys wedi ei gadw, ond heb ei ddefnyddio. Caffi Ponderosa wedi ei wacau dros nos.</p>
<p>29^{ain} Gorffennaf</p>	<p>Roedd yr amodau wedi rhwyddhau ychydig ac nid oedd eiddo nawr o dan fygythiad, ond roedd GTAGC dal eisiau'r ffordd ar gau, roedd ei staffio am fod yn annichonadwy i Wasanaeth Priffyrdd y Cyngor. Gyda dim ond ychydig o gonau yn eu lle'r oedd yn glir buasai rhai defnyddwyr y ffyrdd yn anwybyddu'r pwynt cau ffordd a cheisio defnyddio'r ffordd gan roi eu hunain a phersonél y gwasanaeth tân mewn perygl gan eu bod yn gweithio oddi ar y briffordd weithiau lle'r oedd gweledd bron yn ddim oherwydd y mwg. O ganlyniad penderfynodd y Gwasanaeth priffyrdd i gasglu rhwystrau wedi eu llenwi â dŵr o'u depo a defnyddio'r rhain i roi rhwystr cadarn, corfforol ynghyd ag arwyddion wedi eu diffinio'n well. Yn</p>

	<p>ystod y dyddiau dilynol, ac yn ddibynnol ar yr amodau, defnyddiodd y Gwasanaeth Priffyrdd gyfuniad o'r trefniant rhwystrau corfforol neu reolaeth traffig rhes sengl - a oedd yna'n bennaf i roi parth gwarchodol i bersonél tân a oedd dal yn gorfod gweithio oddi ar y briffordd o dan y gilfan uchaf.</p> <p>Cafodd y Ganolfan Orffwys ei sefyll i lawr, parhaodd statws o fod ar rybudd</p> <p>Rhannau mawr o'r tân yn parhau i fudlosgi o dan y ddaear felly personél Gwasanaethau Cefn Gwlad yn parhau i weithio gyda staff GTAGC i dampio'r ardaloedd hyn. Parhaodd y gwaith dan 1^{af} Awst</p>
30 ^{ain} Gorffennaf	<p>Tractor a pheiriant ffustio gwrych wedi ei roi ar waith ar gais gan GTAGC. Staff CNC yn ymweld ag Uned Gorchymyn Digwyddiad (UGD) bob dydd tan 17^{eg} Awst</p>
1 ^{af} Awst	<p>Yn ystod y bore tynnwyd holl gerbydau oddi ar y ffordd CNC o'r safle.</p> <p>Yn ystod y prynhawn/ min nos cynhaliwyd cyfarfod yn y UGD (GTAGC, Gwasanaethau Cefn Gwlad & Priffyrdd y Cyngor Sir, Heddlu, Timau Gweithredol a Lleol CNC, a Chynghorydd Sir leol).</p> <p>Gofynnwyd i CNC dynnu yn ôl y mynediad cyhoeddus i Dir Mynediad ar Fynydd Llantysilio pan ail-agorwyd y ffordd. (Mae gan awdurdodau perthnasol bwerau o dan Ddeddf Cefn gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRoW) i gyfyngu mynediad at bwrpas atal tân, ond pan mae amodau eithriadol yn bodoli <u>yn unig</u> - CNC oedd yr unig 'awdurdod perthnasol' yn yr achos yma). Mae'r awdurdodau perthnasol yn defnyddio Mynegai Difrifoldeb Tân (FSI)⁴ wedi ei ddarparu gan Swyddfa Meteorolegol y DU i asesu os yw amodau yn eithriadol).</p> <p>Mae log GCARGC yn nodi fod GTAGC yn ystyried sefydlu Grŵp Cydlynu Tactegol (GCT) er mwyn diweddarau'r holl bartneriaid – ni sefydlwyd</p>

⁴ Mae'r Mynegai Difrifoldeb Tân (FSI) yn cael ei ddarparu gan y Swyddfa Feteorolegol ac fe'i defnyddir gan awdurdodau perthnasol yn Lloegr a Chymru i asesu os yw amodau tywydd yn eithriadol.

	<p>GCT yn ffurfiol. Ar y pwynt daeth cysylltiad GCARGC a'r digwyddiad i ben.</p> <p>Hwn oedd y dyddiad olaf wnaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor dderbyn cais ffurfiol am gefnogaeth weithredol gan GTAGC, er arhosodd y Gwasanaeth mewn cysylltiad gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub trwy gydol Awst.</p>
2 ^{il} Awst	<p>Y brif ffordd (A542) yn ail agor ond ni oedd CNC yn gallu cefnogi atal mynediad cyhoeddus fel y ceisiwyd amdano 'r diwrnod cynt oherwydd "nid oedd y Mynegai Difrifoldeb Tân (FSI)⁵ wedi cyrraedd y lefel eithriadol i'r ardal a fuasai'n atal hawl mynediad er mwyn atal tân."</p>
4 ^{ydd} Awst	<p>Derbyniodd yr Heddlu ddeg riport o ailgynnau felly arhosodd y brif ffordd yn gaead. Roedd yr Heddlu yn ymwneud a'r digwyddiadau yn bennaf drwy gau ffyrdd ar mewn argyfwng.</p>
6 ^{ed} Awst	<p>Tân yn mudlosgi yn yr ardal o'r ffordd ym Mwlich yr Oernant ei hun. Dywedodd CNC nad oedd ganddynt wrthwynebiad i berchnogion tai dorri llystyfiant yn yr ardal, ond codwyd pryderon am ddiogelwch gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.</p>
7 ^{fed} Awst	<p>Cafwyd cyfarfod rhwng CNC, yr asiant ar gyfer Ystâd Llantysilio, Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor Sir a GTAGC i drafod a oedd angen rhagor o dorri.</p>
8 ^{fed} Awst	<p>Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi derbyn cais cychwynnol am gefnogaeth gyda chyflenwad dŵr yn ardal Mynydd Llantysilio. Golyga hyn ddarparu pwynt llenwi tancer yn Llandegla. Daeth yn amlwg yn gynnar fod y pwynt llenwi yn aneffeithiol yn llenwi'r tendrau tân mewn amser addas. Felly darparodd WWDC gymorth drwy 3 tancer aml gymalog dros gyfnod o 24 awr, gyda bob un yn dal 25,000 litr o ddŵr - defnyddiwyd y rhain i llenwi'r tendrau - ac fe'i lleolwyd ar y safle yn Llandegla am oddeutu 4 i 5 diwrnod a nos. Oherwydd y cyfaint o ddŵr a gadwyd yn y tanceri ar y safle ni ddefnyddiwyd y dŵr i gyd, o ganlyniad gwnaed penderfyniad i ostwng y nifer o danceri i dadau'r dydd. Darparwyd y tanceri hyn gan gcontractwyr cludo DCWW ac roeddynt yn dal 30,000 litr o ddŵr yr un ac fe'i hanfonwyd o'r depo am 6am a dychwelyd am 10pm. Parhaodd y</p>

⁵. Mae'r MDT yn sbardun i gyfyngiadau atal tân ar dir mynediad wedi ei fapio o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000). Anela cyfyngiadau tân i leihau tanau damweiniol ar dir mynediad sy'n agored i danau gwyllt drwy atal hawliau mynediad agored dros dro pan mae amgylchiadau yn dod yn eithriadol (MDT lefel 5).

	gefnogaeth hon tan nad oedd eu hangen rhagor gan GTAGC, ar neu o gwmpas 20 ^{fed} Awst.
10 ^{fed} Awst	Gwnaeth GTAGC gais am gymorth gan CNC gyda chreu strimyn atal tân neu ffustio, ond nid oedd cyfarpar CNC ar gael oherwydd gwasanaethu blynyddol a phrif weithredwr y peiriant ar wyliau blynyddol .
14 ^{eg} Awst	Contractwr i Ystâd Llantysilio yn cyfarfod GTAGC a CNC ar y safle. Cynghorodd GTAGC y contractwr ynglŷn â lle fyddai torri yn fuddiol. Penderfynodd y contractwr ar ba leoliadau oedd yn addas i'w torri wedi ei seilio ar brofiad blaenorol a'r cyfarpar oedd ar gael. Cytunwyd hyn ar y safle a gwnaed y gwaith torri'r noson honno.
17 ^{eg} Awst	Newyddion BBC Cymru yn adrodd 'tân Mynydd Llantysilio 'allan' ar ôl llosgi am 40 niwrnod' gan fod GTAGC wedi dweud y dylai staff ymadael a'r safle o'r diwedd: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-45218857
O gwmpas 20 ^{fed} Awst	Yr ardal yn cael ei ddatgan yn ddiogel gan alluogi holl gyfyngiadau priffyrdd i gael eu tynnu.
5 ^{ed} Medi	CNC yn cael gwybod gan GTAGC fod yr UGD wedi cael ei dynnu oddi ar y safle.
13 ^{eg} Medi	GTAGC yn gadael y safle.
25 ^{ain} Medi	GTAGC yn cau'r digwyddiad i lawr yn ffurfiol am 1.45pm.